# Uwchgynllun Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd

## *Uwchgynllun*

Cymeradwywyd Tachwedd 2020



CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI



# Mynegai

**Adran 1:**
Cyflwyniad

**Adran 2:**
Ardal yr Astudiaeth

**Adran 3:**
Y Cyd-destun

**Adran 4:**
Y Weledigaeth ar gyfer Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd

**Adran 5:**
Y Strategaeth Ddatblygu

**Adran 6:**
Fframwaith y Prif Gynllun

**Adran 7:**
Cyflenwi a Gweithredu Newid

**Atodiad1:**
Amcanion Sail i Lwyddiant

**Atodiad 2:**
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**Atodiad 3:**
Asesiad o Gynigion Safle Penodol yn erbyn y Nodau Llesiant Cenedlaethol ac Amcanion Llesiant CBSC

**Atodiad 4:**
Dadansoddiad yn ôl Sector

**Atodiad 5:**
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019)

# Adran 1: Cyflwyniad

Mae'r Prif Gynllun hwn yn gosod y cyfleoedd datblygu ac adfywio i'r dyfodol a gynigir ar gyfer Blaenau'r Cymoedd. Mae'n ceisio hwyluso newid sylweddol er mwyn gwella rôl cymunedau, gan eu galluogi i arallgyfeirio, gan ganiatáu i ddiwydiannau godi a demograffeg i newid er gwell.

Mae yna gyfle cyffrous i hwyluso newid sylweddol trwy Gytundeb Dinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd (CDPRhC), a fydd yn darparu adnoddau i ddatgloi twf economaidd sylweddol yn y rhanbarth, gan gyflwyno swyddi a buddsoddiad sector preifat. Tra bod CDPRhC yn ceisio lleddfu pwysau ar Gaerdydd fel ei dinas ranbarthol mae hefyd yn ceisio hybu twf mewn trefi llai a chymunedau diwydiannol er mwyn ail-gydbwyso cyfiawnder cymdeithasol a ffyniant. Mae'r Prif Gynllun hwn yn ceisio darparu cyfeiriad i sicrhau trawsnewid tuag at lwyddiant economaidd a chymdeithasol.

Bydd Cronfa Fuddsoddi'r Cytundeb Dinesig hefyd yn hwyluso'r gwaith o gyflwyno Metro De Ddwyrain Cymru, a fydd yn gwneud gwelliannau sylweddol i gysylltedd trwy gludiant cyhoeddus ar draws y rhanbarth. Bydd y buddsoddiad hwn yn gwella amlder gwasanaethau i Orsaf Rhymni o Gaerdydd, gan wella cysylltedd gogledd-de ac mae'r Prif Gynllun yn nodi sut y gellir gwneud y mwyaf o'r cyfle hwn.

Mae Tasglu'r Cymoedd hefyd yn gosod allan rhaglen uchelgeisiol ar gyfer newid, gan adnabod camau gweithredu a rhaglenni sydd wedi'u cynllunio i wneud newid cadarnhaol yng Nghymoedd De Cymru trwy'r Cynllun Cyflenwi 'Ein Cymoedd Ein Dyfodol'. Er bod y Cynllun Cyflenwi yn nodi nifer o gamau, y mwyaf perthnasol i'r Prif Gynllun hwn yw'r ffocws ar sicrhau bod mwy o dir ar gael er mwyn cynyddu cyfleoedd datblygu economaidd i'r eithaf, gan harneisio potensial yr economi sylfaenol leol, gan fanteisio ar well cysylltedd a rôl Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

Swyddogaeth y prif gynllun hwn felly yw darparu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer dyfodol Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd. Mae'r prif gynllun hwn yn hyblyg ac mae ganddo'r gallu i addasu i amodau economaidd a marchnad newidiol a bodloni gofynion ac uchelgeisiau'r sector preifat a chyhoeddus dros y cyfnod hwn trwy adolygiadau rheolaidd. Cydnabyddir bod yna rai prosiectau y gellir eu cyflawni o fewn y tymor byr i'r tymor canolig. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni nodau adfywio tymor hir, mae uchelgais i ailddatblygu nifer o safleoedd allweddol o fewn ardal y Prif Gynllun.

Paratowyd y prif gynllun yng nghyd-destun Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig Bwrdeistref Sirol Caerffili, sy'n gosod



amcanion defnydd tir y Cyngor ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, ond mae hefyd yn gosod nodau tymor hwy i sicrhau bod y momentwm newid yn ymestyn i'r degawd nesaf.

Mae llawer o'r prosiectau a nodwyd yn y Prif Gynllun yn cyd-fynd â chynigion sydd wedi'u cynnwys yn y CDLl mabwysiedig. Bydd angen adolygu'r cynllun er mwyn darparu'r fframwaith polisi i reoli datblygiad yn y dyfodol. At hynny, gellir cynnwys cynigion perthnasol hefyd mewn Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Felly bydd angen adolygu'r Prif Gynllun i ystyried y polisïau a'r cynigion perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y gwahanol haenau o gynlluniau datblygu wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Paratowyd y Prif Gynllun yng nghyd-destun y strategaeth adfywio pontiol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, 'Sail i Lwyddiant' yn ogystal â'r strategaeth datblygu economaidd 'Cyflawni Ffyniant'. Mae 'Sail i Lwyddiant' yn nodi pedair thema allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt:

- **Cysylltu Pobl a Lleoedd**
- **Cysylltu Pobl a Lleoedd**
- **Cefnogi Pobl; a**
- **Chefnogi Ansawdd Bywyd.**

Prif Gynllun Blaenau'r Cymoedd yw'r drydedd strategaeth ardal benodol, mewn cyfres o bump, fydd yn adnabod prosiectau er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion ac amcanion allweddol a nodwyd yn y Strategaeth Adfywio ehangach. Mae'n ffurfio rhan o'r cynllun gweithredu ar gyfer 'Sail i Lwyddiant' a'r Strategaeth Datblygu Economaidd 'Cyflawni Ffyniant' a fydd yn cael eu hadolygu bob 5 mlynedd. Mae'r Prif Gynllun yn adnabod cyfleoedd buddsoddi a datblygu o fewn Ardal Blaenau'r Cymoedd.

Er mwyn dal cyfleoedd adfywio ledled y Fwrdeistref Sirol, cynhyrchir dau Brif Gynllun arall ar gyfer Coed Duon Mwyaf a Choridor Trecelyn i Risga.

# Adran 2: Ardal yr Astudiaeth

Lleolir Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd yn rhan ogleddol Bwrdeistref Sirol Caerffili, ac mae'n cynnwys Cymoedd Darran, Rhymni Uchaf a Sirhywi Uchaf, gan gynwys Prif Dref Bargod a Canolfan Leol Rhymni. Mae'n cynnwys wardiau Twyn Carno, Moriah, Pontlotyn, Cwm Darran, Tredegar Newydd, Aberbargod, Bargod, Gifach ac Argoed.

Mae'r ardal hon yn wynebu nifer heriau sylweddol, fel y tanlinellwyd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019. O'r 20 ardal cynnyrch ehangach haen is (LSOA) sy'n ffurfio'r naw ward, mae chwech ohonynt o fewn y 10% sy'n dioddef yr amddifadedd mwyaf yng Nghymru mewn termau cyffredinol, gyda phump arall ymysg y 10-20% sy'n dioddef yr amddifadedd mwyaf. Yn ogystal, mae pob un o'r naw ward yn uwch na'r cyfartaledd o ran anweithgarwch economaidd a diweithdra, ac mae cyfran y swyddi â sgiliau is, â chyflog is, yn uwch

**Ardal yr Astudiaeth**





yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr. Cyflwynir data perthnasol fel atodiad i'r ddogfen hon.

Gorwedd Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd ar fan fwyaf gogleddol yr A465. Mae hon yn briffordd drafnidiaeth allweddol i economi De Cymru, gan gysylltu'r M4 yng Nghastell-nedd gyda'r Fenni a Henffordd, a darparu cysylltiadau rhwng Gorllewin Cymru a Chanolbarth Lloegr. Dyma'r unig gyswllt strategol o'r dwyrain i'r gorllewin sy'n cysylltu cymunedau'r Cymoedd gan ddarparu mynediad at gyflogaeth, adwerthu, hamdden a chyfleusterau eraill. Gwariwyd lefelau sylweddol o arian cyhoeddus eisoes ar wella'r A465 ac mae buddsoddiad pellach yn cael ei ddarparu i gwblhau dyblygu'r llwybr.

Mae'r Prif Gynllun hwn yn ceisio rhoi yn ei gyd-destun y rôl y mae Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd yn ei chwarae yng nghoridor ehangach yr A465 ac yn ceisio ategu, manteisio a chryfhau'r cyfleoedd sy'n bodoli. I'r gorllewin mae Merthyr, canolfan isranbarthol, cyrchfan adwerthu fawr a chanolfan gwasanaeth a chartref i swyddfeydd Llywodraeth Cymru ac atyniadau twristiaeth mawr fel Bike Park Wales. Yn union i'r dwyrain y mae Blaenau Gwent, cartref Parth Menter Glyn Ebwy (PM) sy'n defnyddio'r cyllid cyhoeddus sydd ar gael i ddatblygu ei sector modurol trwy fenter y Cymoedd Technoleg.

Er bod ardal astudiaeth y Prif Gynllun yn ymwneud yn unig â'r rhan honno o Flaenau'r Cymoedd o fewn ffin weinyddol Bwrdeistref Sirol Caerffili, mae'n ymdrin â choridor ehangach yr A465 ac yn adnabod cyfleoedd datblygu a buddsoddi a fydd yn cryfhau sefyllfa'r Fwrdeistref yn y cyd-destun hwn.

# Adran 3: Y Cyd-destun

Wrth ddarparu'r cyd-destun i'r Prif Gynllun, mae'n bwysig deall y cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau sy'n bodoli yn awr yn ardal Blaenau'r Cymoedd.

## Cryfderau

- Cysylltedd gwych ar hyd ffordd A465 Blaenau'r Cymoedd i Orllewin Canolbarth Lloegr, Gorllewin Cymru ac Iwerddon;
- Wedi'i lleoli mewn amgylchedd naturiol a lled naturiol dramatig;
- Seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus wedi'i wella yn y blynyddoedd diwethaf gan gynnwys darparu cyfleusterau parcio a theithio newydd a chyfnewidfa bws/rheilffordd newydd ym Margod, parcio a theithio yn Rhymni a chynyddu'r nifer y gwasanaethau;
- Mae dau gwmni gwyddor bywyd pwysig wedi'u lleoli yn AABC, gan gynnwys Richards and Appleby, Williams Medical a Convatec;
- Darparu cyfleuster addysgu newydd i ddisgyblion 3-18 oed yn Rhymni (Ysgol Idris Davies);
- Mae nifer o ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi'u lleoli yn yr ardal, sy'n helpu i hyrwyddo a chynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg;
- Mae'r Ganolfan Adnoddau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig ar gyfer y gogledd wedi'i lleoli yn Rhymni, yn ogystal â Chanolfan Adnoddau Hafod Deg, ac mae'r ddwy ganolfan yn darparu gwasanaethau trawsbynciol hollbwysig i drigolion yr ardal;
- Bodolaeth hybiau cymunedol allweddol e.e. llyfrgelloedd lleol, canolfannau cymunedol, meddygfeydd meddygon teulu;
- Mae'r ardal yn cynnwys dau barc gwledig o fewn ei ffiniau: Parc Coetir Bargod a Pharc Cwm Darran; gyda Pharc Bryn Bach wedi'i leoli bob ochr i'r ffin gyda Blaenau Gwent, gan ddarparu cyfleoedd hamdden a dysgu gydol oes rhagorol;
- Canolfan hamdden yn Nhredegar Newydd sy'n darparu cyfleoedd hamdden sylweddol;
- Mae gwaith adeiladu tai newydd yn parhau, sy'n helpu i amrywio'r stoc tai yn yr ardal hon, e.e. hen Safle Ysgol Bedwellte;
- Mae buddsoddiad sylweddol wedi'i dargedu yn y stoc o dai cyngor ar hyd a lled yr ardal, yn gwella cyflwr ac ansawdd y stoc a'u heffeithlonrwydd ynni;
- Mae Tirwedd Hanesyddol Gelligaer a Chomin Merthyr, sydd wedi'i ddynodi gan Cadw, wedi'i leoli yn yr ardal, sy'n darparu adnodd diwylliannol a hanesyddol pwysig i'r Fwrdeistref Sirol;
- Mae nifer o safleoedd treftadaeth wedi'u lleoli yn yr ardal e.e. Y Drenewydd a Thŷ Weindio Glofa Elliott;
- Mae Cynllun Adfywio Bargod Fwyaf wedi gwella ochr ddeheuol canol tref Bargod;



- Agwedd gadarnhaol at gydlyniant cymunedol.

## Heriau

- Ardal y Prif Gynllun, a Chwm Rhymni Uchaf yn benodol, sydd â'r crynoadau uchaf o amddifadedd yn y Fwrdeistref Sirol;
- Mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) Twyn Carno 1 wedi'i rhestru ar hyn o bryd fel yr 8fed LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALIC, 2019);
- Mae gan yr ardal lefelau uchel o anweithgarwch economaidd, diweithdra a salwch hirdymor;
- Mae gan yr ardal lefelau cyrhaeddiad isel o ran addysg a chymwysterau ffurfiol;
- Mae topograffeg gyffredinol yr ardal, sy'n cynnwys cymoedd a llechweddau serth, yn rhwystro hygyrchedd ac mae wedi cyfrannu at gysylltiadau trafnidiaeth gwael ac ynysiad ffisegol cyffredinol;
- Ond mae trafnidiaeth yn yr ardal yn anaml ac annibynadwy fel dull o gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth;

- Canol tref Bargod sydd â'r gyfradd uchaf o siopau gwag o blith y prif ganol trefi;
- Mae amrywiaeth isel yn y ddarpariaeth o dai amrywiol yn yr ardal;
- Mae nifer o'r cymunedau yn yr ardal wedi'u hynysu a darpariaeth gyfyngedig o gyfleusterau a gwasanaethau sydd ar gael iddynt.

## Cyfleoedd

- Bydd y Fargen Ddinesig ar gyfer y rhanbarth yn darparu lefel ddigynsail o gyllid ar gyfer prosiectau, gyda'r nod o hyrwyddo twf economaidd a chreu swyddi ar hyd a lled y rhanbarth, gan gynnwys mynd i'r afael â bylchau a phrinder sgiliau;
- Gallai penderfyniad Prif Weinidog Cymru i beidio bwrw ymlaen â Ffordd Liniaru'r M4 gael effaith gadarnhaol bosibl ar ganfyddiadau o'r A465 fel llwybr drafnidiaeth sy'n strategol bwysig a dirwystr;
- Y posibilrwydd o integreiddio tir cyflogaeth Rhymni gyda Parth Menter Glyn Ebwy, er mwyn creu Parth Menter Blaenau'r Cymoedd, sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad economaidd cyflenwol a buddiol ar hyd yr A465;
- Mae'r amgylchedd naturiol a lled-naturiol yn yr ardal yn darparu cyfleoedd hamdden rhagorol;
- Y potensial i wella buddiannau ei leoliad ger Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;
- Mae Cwm Rhymni Uchaf yn cynnig potensial sylweddol yn nhermau cynhyrchu ynni adnewyddadwy;
- Mae'r ardal yn destun gwelliannau seilwaith mawr, gan gynnwys deuoli'r A465, gwelliannau i'r Metro a gwaith Dwr Cymru o Rymni i Fargod, a gallai pob un o'r rhain ddarparu hyfforddiant a chynlluniau prentisiaeth ar gyfer yr ardal yn ogystal â hwyluso twf cyflogaeth - mae cynllun Dwr Cymru hefyd yn cynnig buddsoddiad mewn prosiectau cymunedol, fel rhan o'r gwaith sydd wedi'i restru;
- Bydd cwblhau'r unedau diwydiannol newydd yn The Lawns yn darparu unedau modern a fforddiadwy i fusnesau newydd a busnesau sy'n awyddus i ehangu;
- Mae lefel arwyddocaol o dir cyflogaeth ar gael; er bod angen buddsoddiad er mwyn adfer rhywfaint ohono i sicrhau defnydd buddiol;
- Mae datblygu Angel Way a Lowry Plaza yn darparu cyfle rhagorol i weithredu fel catalydd ar gyfer adfywio ac amrywio canol tref Bargod;
- Manteisio ar y gwelliannau i'r rheilffordd a'r cynnydd yn nifer y gwasanaethau ar ôl 2023;
- Darparu cyfnewidfa fysiau ar yr A465 er mwyn gwella'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus rhwng y dwyrain a'r gorllewin, ac i gysylltu â'r A469;
- Targedu cyfleoedd hyfforddiant yn Rhymni, Tredegar Newydd a Bargod ac ar draws yr ardal gyfan, gan edrych ar y posibilrwydd o ddarparu trafnidiaeth gymunedol drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig a Trafnidiaeth Cymru;
- Treialu defnydd gwell o dechnoleg ddigidol er mwyn hyrwyddo seilwaith a chyfleusterau gwyrdd a hyfforddiant

digidol integredig gyda chyflogwyr a phobl ifanc;

- Byddai ehangu cynnig hamdden a thwristiaeth yr ardal drwy Barc Rhanbarthol y Cymoedd yn fuddiol i'r economi leol ac i ansawdd bywyd pobl;
- Manteisio i'r eithaf ar y potensial i ddefnyddio treftadaeth fel ffordd o gynyddu twristiaeth yn yr ardal;
- Y potensial i sefydlu ardal y Prif Gynllun fel cyrchfan i ymwelwyr drwy gynyddu'r ddarpariaeth llety i dwristiaid, o ystyried pa mor agos yw'r ardal i'r Parc Cenedlaethol a chyfleusterau hamdden a thwristiaeth eraill;
- Mae'r amgylchedd naturiol a lled-naturiol, gan gynnwys y parciau gwledig a Thirwedd Hanesyddol Comin Gelligaer, yn darparu cyfleoedd gwych i gymunedau lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd, gan gynnwys hamdden, iechyd a llesiant gwell a dysgu gydol oes;
- Mae rhannau o'r llwybrau beicio eisoes wedi'u cyflwyno ac mae cyfleoedd pellach i greu rhwydwaith o lwybrau wedi'u hintegreiddio i rwydwaith rhanbarthol ehangach;
- Mae cyllid ar gael drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig, a gellir ei ddefnyddio i hwyluso nifer o ddatblygiadau yn yr ardal.

## Bygythiadau

- Nodwyd Merthyr a Glyn Ebwy fel hybiau strategol yng Nghynllun Cyflenwi Tasglu'r Cymoedd. Felly mae angen i ran ogleddol ardal y Prif Gynllun sicrhau y gall ddatblygu ei rôl gyflogaeth ategol;
- Ni nodwyd unrhyw 'hybiau' Tasglu'r Cymoedd yn ardal y Prif Gynllun;
- Mae'r ffasiwn bresennol ar gyfer siopa arbrofol a thwf siopa ar-lein yn heriol i'r canol trefi presennol;
- Mae poblogaeth yn crebachu yn fygythiad mawr i ardal Blaenau'r Cymoedd, a gallai hyn arwain at golli gwasanaethau lleol a chynaliadwyedd cymunedol;
- Mae angen mynd i'r afael â ffactorau economaidd-gymdeithasol neu maent yn debygol o barhau i gael effaith sylweddol ar ardal y Prif Gynllun;
- Mae lefelau perchnogaeth ceir yn isel ac mae'r seilwaith TG yn wael yn yr ardal;
- Mae gwerthoedd tir isel ac amodau tir hanesyddol sy'n gysylltiedig â gorffennol diwydiannol yr ardal yn golygu bod llawer o safleoedd yn anhyfyw ac felly yn anneniadol i'r sector preifat;
- Mae'n bosibl na fydd yr adnoddau ariannol sydd ar gael yn ddigonol er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â'r heriau, yn arbennig o ganlyniad i golli cyllid yr Undeb Ewropeaidd;
- Gallai uchelgeisiau isel, cyflawniad addysgol isel a phroblemau iechyd lesteirio gallu'r preswylwyr i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth;
- Gall barn negyddol pobl o'r ardal danseilio ymdrechion i adfywio'r ardal.

# Adran 4: Y Weledigaeth ar gyfer Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd

Mae Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd yn cynnwys trefi Bargod, Rhymni a Chwm Rhymni uchaf a Dyffryn Sirhywi, ac mae'n gorwedd yn gyfochrog â ffordd yr A465 yn ei man mwyaf gogleddol. Mae angen i ddatblygiad yn y maes hwn elwa ar y buddsoddiad cyhoeddus sylweddol yn yr A465, er mwyn helpu i fynd i'r afael ag amddifadedd yn yr ardal hon. Mae Gweledigaeth a chyfres o Amcanion Strategol wedi'u hadnabod, yn seiliedig ar y canfyddiadau a nodir yn Adran 3 - mae'r rhain yn ceisio mynd i'r afael â bygythiadau a gwendidau AABC, trwy gynyddu effaith gadarnhaol ei chryfderau i'r eithaf a manteisio ar ei chyfleoedd.

## Mae'r Weledigaeth fel a ganlyn:

"Bydd Blaenau'r Cymoedd yn manteisio ar y buddsoddiad cyhoeddus sylweddol yn yr A465 a'i lleoliad strategol ar hyd y coridor hwn, gan ategu a chryfhau cyfleoedd cyflogaeth a chreu lle cyffrous, bywiog lle bydd busnesau yn dymuno lleoli a lle bydd pobl yn dewis byw a gweithio.

Bydd yn cryfhau ac yn arallgyfeirio cymunedau trwy wella cysylltedd, cefnogi rôl yr economi sylfaenol a datblygu ei rôl fel cyrchfan i ymwelwyr a thwristiaeth trwy ddefnyddio ei threftadaeth ddiwydiannol unigryw a'i hatyniadau a'i mannau naturiol. Bydd yn galluogi darparu, ac yn hyrwyddo hygyrchedd i'r gwasanaethau masnachol, hamdden a chymunedol hynny a fydd yn galluogi pobl i fyw bywydau mwy iach a llewyrchus." Paratowyd y Weledigaeth gan roi sylw i'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd y Weledigaeth ar gyfer Prif Gynllun yn cael ei chefnogi gan gyfres o Amcanion Strategol a amlinellir isod a fydd yn gyrru ei chyflawniad ac yn trosi'n uniongyrchol i gyfres o brosiectau a chamau sy'n:

A. **Ategu, ac integreiddio â mentrau cyfagos fel Parth Menter Glyn Ebwy er mwyn datblygu swyddogaeth cyflogaeth strategol ar gyfer Rhymni, gan ei sefydlu fel porth i'r Cymoedd** - *Adnabod cynigion ailddatblygu ar gyfer safleoedd cyflogaeth Rhymni sy'n cysylltu â gwelliannau Metro, rôl Gorsaf Rhymni ac agosrwydd yr A465. Mae sefydlu cysylltiadau seilwaith a sectoraidd cryf â'r Parth Menter yn ganolog i hyn;*

B. **Gwella cydnerthedd cymdeithasol ac economaidd trwy addysg, hyfforddiant a chyngor gyrfaoedd, a meithrin datblygiad yr economi sylfaenol o fewn yr ardal hon i sicrhau bod twf economaidd yn cronni'n decach** - *Mynd i'r afael ag amddifadedd a gwella mynediad at gyfleoedd economaidd trwy ddatblygu sgiliau ac integreiddio mentrau hyfforddi â busnes. O ran yr economi sylfaenol, sicrhau bod adnoddau'n cael eu gwario'n fwy defnyddiol wrth gynnal busnesau cynhenid lle mae elw a gwariant yn fwy tebygol o aros neu ail-gylchredeg*

*o fewn yr economi leol. Yn ganolog i hyn y mae adeiladu gallu o fewn cymunedau a sefydlu rhwydweithiau cydweithredu;*

C. **Ehangu cylch dylanwad yr ardal a gwella cysylltedd** - *Defnyddio'r A465 a gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus i alluogi'r boblogaeth yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol i elwa ar gyfleoedd yng nghoridor ehangach yr A465, gan gynnwys y rhai a gyflwynir mewn awdurdodau cyfagos;*

D. **Atgyfnerthu rôl Bargod fel canolfan gwasanaeth ar gyfer gogledd y Fwrdeistref Sirol** - *Hyrwyddo ei arallgyfeirio at ddefnydd amgen, a manteisio i'r eithaf ar ei gysylltiad bysiau/rheilffyrdd wrth gadw a chydgrynhoi craidd adwerthu cryf;*

E. **Gwneud y mwyaf o effaith Parc Rhanbarthol y Cymoedd, amddiffyn a gwella mannau gwyrdd a'r dreftadaeth adeiledig pwysig a hyrwyddo twristiaeth** - *Sefydlu rhwydwaith bywiog o atyniadau twristiaeth, ymwelwyr a hamdden a hyrwyddo treftadaeth naturiol yr ardal er mwyn annog y defnydd o fannau gwyrdd a chreu cyrchfan bywiog a hygyrch i ymwelwyr;*

F. **Cefnogi cynigion ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a budd cymunedol trwy seilwaith cyfleustodau** - *Annog datblygu cynigion ynni adnewyddadwy mewn lleoliadau cynaliadwy, gan gynnwys trwy weithredu cwmnïau cydweithredol cymunedol, a sicrhau y gellir sicrhau budd cymuned o uwchradd cyfleustodau cyhoeddus;*

G. **Cefnogi datblygu ac arallgyfeirio tai mewn lleoliadau cynaliadwy i ategu twf economaidd a chydnerthedd** - *Datgloi safleoedd tai sydd wed dod i stop mewn lleoliadau sy'n llai ffafriol i adeiladwyr maint a threialu mentrau ar gyfer tai arloesol a hunan-adeiladu;*

H. **Darparu lefel addas o gyfleusterau cymunedol, hamdden ac addysg, gan alinio â mentrau cenedlaethol a lleol gan gynnwys Ysgolion yr 21ain Ganrif a Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili lle bo hynny'n berthnasol, a sefydlu Rhwydweithiau Lles Integredig er mwyn cysylltu cryfderau ac asedau cymunedau** - *Cydnabod bod cyfleusterau o'r fath yn bwysig i'r boblogaeth a sicrhau bod y cyfleusterau hyn yn cwrdd ag anghenion y dyfodol. Gall cydweithredu a ddarperir trwy rwydweithiau o hybiau cymunedol a phobl sy'n cyflwyno gwasanaethau a chefnogaeth adeiladu perthnasoedd cymunedol a chael effaith gadarnhaol ar lesiant a chyfalaf cymdeithasol, yn enwedig ar y cyd â chynlluniau cymunedol eraill;*

I. **Sicrhau bod hygyrchedd i bawb wedi'i ymgorffori ym mhob cynllun gwella** - *Amcan trawsgyfeiriol sy'n cydnabod bod pobl yn cael eu gwneud yn fwy anabl oherwydd dyluniad gwael, gwasanaethau anhygyrch ac agweddau pobl eraill yn hytrach na thrwy eu nam eu hunain;*

J. **Sicrhau bod pob cymuned yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd yn gallu ymgysylltu ac elwa o'r Prif Gynllun** - *Sicrhau bod gan y cynigion a nodwyd yn y Prif Gynllun allbynnau cadarnhaol ar gyfer y rhai sy'n byw yn y cymunedau hynny.*

# Adran 5: Y Strategaeth Ddatblygu

Er mwyn cyflawni'r Weledigaeth a'r Amcanion Strategol, mae'n bwysig cyflwyno'r strategaeth ddatblygu mewn cysylltiad â'r defnydd o dir allweddol yn ardal y Prif Gynllun, gan ystyried strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig, uchelgeisiau rhanbarthol a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n ffurfio'r cyd-destun. Cyflwynir y broses o gyflawni safleoedd penodol y Prif Gynllun yn Adran 6.

## Cyflogaeth a Sgiliau

Mae'r Fargen Ddinesig yn cyflwyno cyfle arwyddocaol i adfywio economi coridor yr A465, gan ddarparu cyllid i ddatblygu twf mewn sectorau allweddol, sefydlu rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth wedi'u hailddatblygu a'u hailgyflunio a gwella'r cysylltiadau gyda gweddill y rhanbarth a thu hwnt. Gwnaed gwaith i lunio dadansoddiad sectoraidd o economi AABC, nodi'r meysydd hynny o gryfder sectoraidd a allai fodoli a sefydlu lle gallai cyfleoedd ar gyfer twf economaidd ddatblygu ar sail hyn. Cyflwynir y gwaith hwn fel atodiad i'r ddogfen hon a'i chanfyddiadau yn Adran 6.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn diogelu'r chwe safle canlynol yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd ar gyfer defnydd cyflogaeth a dylid parhau i ddiogelu'r rhain (mae tir ychwanegol yn Ystâd Ddiwydiannol Blaenau'r Cymoedd wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad newydd):

- Blaenau'r Cymoedd, Rhymni;
- Capital Valley, Rhymni;
- Y Maerdy, Rhymni;
- Parc Busnes Tredegar Newydd
- Bowen, Aberbargod;
- Angel Lane, Aberbargod.

Mae'r Prif Gynllun yn ceisio manteisio ar y tri safle yn Rhymni a restrir uchod yn ogystal ag Ystâd Ddiwydiannol The Lawns, drwy eu nodi fel cyfleoedd ailddatblygu posibl, er mwyn darparu gofod busnes newydd, i gyd-fynd â swyddogaeth Parth Menter Glyn Ebwy gerllaw a manteisio i'r eithaf ar y potensial a gynigir gan gysylltiad gwell drwy'r cynllun Metro.

Rhagwelir y bydd hyn yn cynnwys darparu unedau ar gyfer busnesau newydd a fydd yn addas ar gyfer busnesau newydd bach, a rhai unedau mwy ar gyfer busnesau sy'n dymuno manteisio ar sectorau presennol a sectorau twf. Mae gan yr ardal hon, yn ogystal â Blaenau Gwent, bresenoldeb gwyddorau bywyd, a gallai ffocws y Parth Menter gyfagos ar y sector modurol gyflwyno cyfleoedd ar gyfer datblygiad cyflenwol mewn cysylltiad â'r cadwyni cyflenwi a'r sectorau gwasanaethau.

Yn ogystal â'r gwelliannau ffisegol i dir ac eiddo, mae angen i'r broses hon gysylltu â datblygiad cynlluniau recriwtio uniongyrchol sy'n cael eu cyflwyno gan Swyddog Cyswllt Busnes y Cyngor.

## Yr Economi Sylfaenol

Mae'r economi sylfaenol yn darparu nwyddau a gwasanaethau hollbwysig ar gyfer bywyd pob dydd ac mae'n cynnwys seilwaith; cyfleustodau; prosesu bwyd, adwerthu a dosbarthu; ac iechyd, addysg a lles. Yng Nghymru, mae'n cefnogi pedair o bob 10 swydd, a £1 o bob £3 a werir.

Ymhlith yr ymyraethau cyffredin a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r economi sylfaenol mae'r rhai sy'n gysylltiedig â phrosesau caffael y sector cyhoeddus, gan sicrhau y gellir defnyddio mwy o'r refeniw sy'n llifo drwyddi a'i gadw yn yr economi leol. Mae cynlluniau eraill yn cynnwys prosiect peilot ym Mlaenau Gwent, sy'n cynnwys cymdeithasau tai lleol yn cydweithio i gefnogi datblygiad busnesau bach a chanolig eu maint.

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio Cronfa yr Economi Sylfaenol, sy'n werth £3 miliwn, sy'n cynnig cymorth i sefydliadau a busnesau gyflwyno ffyrdd arloesol o weithio. Mae hyn yn agored i unrhyw sefydliad sy'n gweithio yn yr economi sylfaenol, ac mae'n rhaid i brosiectau weithredu er ei budd.

## Addysg a Hyfforddiant

Mae cyrhaeddiad addysgol a chaffael sgiliau, ynghyd â ffactorau cymdeithasol ac economaidd eraill sy'n gysylltiedig ag amddifadedd yn faterion allweddol er mwyn gallu mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau yn ardal y Prif Gynllun. Mae data o Fynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru (MALC) 2019 yn datgan bod chwech o'r ugain Ardal Gynnyrch Ehangach sy'n creu AABC ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig o holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Cymru yn nhermau addysg (cyflwynir manylion hyn yn Atodiad 5).

Gan weithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, Cymorth Busnes Cymru a busnesau a diwydiant, bydd y Cyngor yn ceisio cynyddu argaeledd swyddi safonol a nodi cyfleoedd i wella mynediad preswylwyr i'r swyddi hynny. Mae argaeledd gweithlu sy'n meddu ar yr ystod briodol o sgiliau yn hollbwysig, ac mae angen canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Darparu cymorth gyrfaoedd priodol er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth pobl o'r math o gyflogaeth sydd ar gael iddynt a'u helpu i wneud y dewisiadau cywir i'w harwain at waith;
- Sicrhau bod y sgiliau meddal a'r sgiliau technegol priodol yn cael eu darparu, ennyn diwylliant o fenter ac entrepreneuriaeth;
- Mynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng y sgiliau sydd eu hangen i gael mynediad at swyddi (digidol, technegol a meddal) a'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu drwy'r cwricwlwm addysg a gan ddarparwyr hyfforddiant;
- Sicrhau bod cyfleoedd yn bodoli i uwchsgilio yn y gweithlu presennol, gan gynnwys cau'r bwlch sgiliau mewn cysylltiad â'r sectorau twf posibl;
- Gwella'r cysylltiadau rhwng ysgolion, addysg bellach a busnesau lleol;
- Integreiddio â'r model Porth Cyflogaeth sy'n cael ei arwain gan Adfywio Cymunedol, gan ddarparu cyfleoedd hyfforddiant perthnasol pwysig i weithluoedd presennol a chyfranogwyr di-waith.

## Cysylltedd

Yr A465 yw'r llwybr strategol pwysig o'r dwyrain i'r gorllewin rhwng Gorllewin Cymru a Chanolbarth Lloegr a bydd y rhaglen ddeuoli barhaus yn cynyddu ei gapasiti, yn ogystal â darparu cyswllt hollbwysig gyda chanolfannau cyfagos, megis Merthyr a Glyn Ebwy. Bydd yr hygyrchedd uwch a fydd ar gael yn sgil y cynllun Metro yn creu buddiannau tebyg o ran hygyrchedd tua'r de, a bydd yn cynorthwyo mynediad at farchnadoedd allanol i fusnesau, swyddi a chyfleusterau eraill i drigolion. Bydd cynyddu amlder teithiau a darparu gwasanaethau cynharach a hwyrach yn galluogi i fwy o bobl deithio mewn ffordd sy'n addas ar gyfer gofynion y farchnad lafur, ac sy'n ystyriol o batrymau shifftiau.

Mae posibilrwydd hefyd y bydd yn denu cyflogeion ac ymwelwyr, ac felly mae safleoedd 'porth' megis Gorsafoedd Bargod a Rhymni a'u hamgylchoedd yn bwysig, yn eu rhinwedd eu hunain ac fel dull o gyfeirio at gyfleusterau cyfagos. Felly, mae posibilrwydd i'r tir o amgylch gorsafoedd rheilffordd lleol gael eu hailgyflunio i gael effaith gadarnhaol ar yr economi leol h.y. drwy ddarparu gofod busnes a datblygiadau cysylltiedig, a chyfleu delwedd gadarnhaol o'r ardal drwy ddarparu cysylltiadau i ganol trefi a chyfleusterau eraill sy'n bodoli mewn rhannau eraill o Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd.

## Hamdden a Thwristiaeth

Mae Blaenau'r Cymoedd yn adnabyddus am etifeddiaeth ddiwydiannol gref a chyfres o dirweddau nodedig, ac mae'r cyfuniad o'r rhain yn dreftadaeth naturiol a diwylliannol cyfoethog. Mae cynllun Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn ceisio sefydlu model ar gyfer rheoli rhwydwaith o barciau gwledig gweledol iawn, o ansawdd uchel, asedau naturiol, safleoedd treftadaeth ac atyniadau eraill ar draws y Cymoedd, sydd wedi'u cysylltu â threfi a phentrefi a'r Metro, a chynyddu'r cyfleoedd i weithio, beicio a marchogaeth.

Mae tri pharc gwledig presennol ac un parc gwledig arfaethedig yn AABC a fydd yn cyfrannu i Barc Rhanbarthol y Cymoedd sef:

**Parc Bryn Bach (Blaenau Gwent/Caerffili);**
**Parc Cwm Darran;**
**Parc Coetir Bargod;**
**Glofa Markham.**

Mae'r asedau treftadaeth eraill a fydd yn cyfrannu i Barc Rhanbarthol y Cymoedd yn cynnwys:

**Amgueddfa Y Ty Weindio, Tredegar Newydd;**
**Ardal Gadwraeth y Drenewydd;**
**Capel Hanbury a'r Llyfrgell, Bargod.**

## Canol Trefi

Mae adwerthu yn parhau i fod yn elfen sylfaenol o rôl a swyddogaeth canol trefi. Mae ardal y Prif Gynllun yn cynnwys prif dref Bargod, Canolfan Leol Rhymni ac aneddiadau llai Tredegar Newydd, Aberbargod, Markham, Argoed, Llwyncelyn, Deri, Fochriw, Pontlotyn ac Abertyswg.

- **Bargod** – mae canol y dref yn cynnwys un archfarchnad genedlaethol (Morrisons), nifer o siopau cenedlaethol llai a mwy na 100 o unedau masnachol, y mwyafrif ohonynt yn annibynnol, a gwasanaethau allweddol;
- **Rhymni** – ystod o siopau a gwasanaethau lleol;

- **Adwerthu cymdogaeth** – yn unol â pholisïau cynllunio cenedlaethol a lleol, nid yw'r Prif Gynllun yn hyrwyddo'r ddarpariaeth o ddatblygiadau adwerthu mawr y tu hwnt i'r ardaloedd adwerthu dynodedig, ond mae datblygu rhywfaint o adwerthu er mwyn cefnogi anghenion lleol yn elfen allweddol o hybu datblygiad cynaliadwy.

Mae gan ganol trefi Bargod a Rhymni unedau gwag, ac mae posibilrwydd o amrywio'r ystod o ddefnyddiau yn y ddwy dref, gan sicrhau'r un pryd eu bod yn ehangu eu rolau fel canol trefi gyda sylfaen adwerthu a masnachol hyfyw a bywiog.

## Tai

Mae'r strategaeth ar gyfer y Cynllun Cyflenwi Lleol mabwysiedig yn ceisio manteisio ar gyfleoedd datblygu priodol pan fyddant yn bodoli, gyda'r bwriad o greu dyfodol hyfyw i holl gymunedau Blaenau'r Cymoedd. Ceisia hefyd ddarparu tai newydd mewn pentrefi lle mae angen amrywio'r stoc a hefyd er mwyn cadw'r boblogaeth bresennol.

Mae Blaenau'r Cymoedd wedi profi llai o bwysau datblygu yn ystod oes y Cynllun Cyflenwi Lleol, oherwydd canfyddiadau adeiladwyr tai lluosog yngl n â phroffidioldeb. Er bod rhai datblygiadau bach wedi'u cyflawni, mae llawer o'r safleoedd sydd wedi'u dyrannu ar gyfer tai yn y Cynllun Cyflenwi Lleol yn parhau heb eu datblygu, er gwaethaf eu lleoliadau cynaliadwy. Fodd bynnag, mae potensial sylweddol i adeiladwyr bach a chanolig eu maint eu datblygu a lleiniau hunanadeiladu, yn ogystal â safleoedd newydd cymdeithasau tai, i ddarparu tai lleol cynaliadwy newydd er mwyn cynyddu nifer ac ansawdd y stoc tai yn yr ardal hon.

## Cyfleusterau Cymunedol

Mae darparu cyfleusterau cymunedol, a'u lleoliadau, yn hollbwysig ar gyfer cynaliadwyedd aneddiadau a llesiant eu poblogaethau. Yn ogystal â'r cyfleusterau presennol yn AABC, mae nifer o gyfleusterau newydd wedi agor, neu mae cyfleusterau presennol wedi'u gwella, ers mabwysiadu'r Cynllun Cyflenwi Lleol:

- Llyfrgell a Chanolfan y Cwsmer yn Gyntaf Bargod (Capel Hanbury);
- Canolfan Integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhymni;
- Canolfan Adnoddau Hafod Deg, Rhymni;
- Ysgol Idris Davies, Abertyswg – yr ysgol cyfrwng Saesneg gyntaf yn yr awdurdod yng Nghymru sy'n cynnig addysg ysgol drwodd i ddisgyblion rhwng 3 a 18 oed; mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn cynnwys Dechrau'n Deg a gofal plant cofleidiol;
- Llyfrgell Rhymni.

Gall rhesymoli a rhannu cyfleusterau er mwyn cyflawni dibenion cymunedol lluosog ddarparu buddiannau ar ffurf 'hybiau' cymunedol, sy'n galluogi i bobl a grwpiau eu defnyddio ar gyfer nifer o ddefnyddiau gwahanol. Gall hyn gael effaith gadarnhaol yn nhermau cyfalaf cymdeithasol, ennyn cyfleoedd rhwydweithio, rhannu gwybodaeth a datblygu sgiliau trosglwyddadwy sy'n hollbwysig mewn cyd-destun cymdeithasol ac economaidd modern.

# Adran 6: Fframwaith y Prif Gynllun

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r prosiectau a'r cynigion ar gyfer safleoedd penodol a fydd, gyda'i gilydd, yn cyflawni'r Weledigaeth a'r Amcanion. Mae llawer o'r prosiectau yn gydberthynol ac felly gallai gweithredu rhai prosiectau fod yn ddibynnol ar gynigion eraill yn cael eu datblygu'n olynol neu'n gydamserol.

## A – Ategu, ac integreiddio â mentrau cyfagos fel Parth Menter Glyn Ebwy er mwyn datblygu swyddogaeth cyflogaeth strategol ar gyfer Rhymni, gan ei sefydlu fel porth i'r Cymoedd

Mae'r Fargen Ddinesig yn cyflwyno cyfle i goridor yr A465 ddatblygu ei economi mewn ffordd integredig, manteisio ar welliannau i gysylltedd er mwyn ennyn twf sectoraidd ar sail cryfderau presennol, ac mewn dull sy'n ategu rhannau eraill o'r rhanbarth, drwy ddatblygu lleoliadau busnes modern.

Mae Parth Menter Glyn Ebwy yn cynnwys wyth safle y bwriedir iddynt gyflawni amcan menter y Cymoedd Technegol – cefnogi'r gwaith o wella cysylltiadau seilwaith a datblygu 450,000 troedfedd sgwâr o ofod llawr diwydiannol/masnachol newydd, gan gynhyrchu hyd at £20 miliwn o fuddsoddiadau preifat a'r posibilrwydd o 1,000 o swyddi parhaol.

## Y pum safle 'allweddol' yn y Parth Menter yw:

- Bryn Serth (20.2 ha);
- Ystâd Ddiwydiannol Rasa (7.1 ha);
- Rhyd-y-Blew (29.2 ha) – datblygu parc technoleg yn y lleoliad hwn yn lle cynllun Cylchffordd Cymru, gan gynnwys uned uwch adwerthu 50,000 troedfedd sgwâr;
- The Works (6.2 ha) – datblygu unedau 22,000 troedfedd sgwâr ar gyfer busnesau newydd B1/B2;
- Parc Busnes Tredegar (2.1 ha)

Mae pob un o'r safleoedd hyn yn elwa o fod yn agos at yr A465, dyraniad yng Nghynllun Cyflenwi Lleol Blaenau Gwent ar gyfer defnyddiau dosbarth B, proses gynllunio wedi'i symleiddio drwy orchymyn datblygu lleol a chefnogaeth ariannol gan Cyllid Cymru a Chynllun Ardrethi Busnes Cymru. Mae cyfle yn bodoli i ehangu'r Parth Menter i ymgorffori safleoedd cyflogaeth yn Rhymni er mwyn darparu cyfleoedd ategol, cyflenwol a chyflogaeth.

## Sefydlu Cadwyn Arloesedd yr A465

Mae gwaith a gynhaliwyd gan Brifysgol De Cymru ar gyfer Tasglu'r Cymoedd yn argymell sefydlu 'cadwyn arloesedd' er mwyn manteisio i'r effaith ar effaith deuoli'r A465. Nod hyn yw darparu cyfres o glystyrau arloesedd cadarn er mwyn rhoi hwb i'r economi ranbarthol a denu buddsoddiadau allanol. Mae tair ardal wedi'u nodi, yn seiliedig ar nodweddion presennol:

## Cadwyn Arloesedd yr A465



- Parth 1 (ardal Glyn-nedd, Castell-nedd Port Talbot): clwstwr ynni/amgylcheddol;
- Parth 2 (ardal Hirwaun-Aberdar, Rhondda Cynon Taf): clwstwr TG/digidol;
- Parth 3 (Dowlais, Merthyr - Y Drenewydd, Caerffili): estyniad o safleoedd diwydiannol Merthyr a'r Cymoedd Technoleg.

Prif ffocws Ardal 3 yw darparu mwy o gysylltedd rhwng presenoldeb modurol yng Nglyn Ebwy a'r cyfleusterau ychwanegol hynny sy'n bodoli ym Merthyr - rhai diwydiannol yn ogystal ag adwerthu a hamdden. Mae Prifysgol De Cymru yn rhagweld y bydd cyfleusterau Ymchwil a Datblygu, cymorth ar gyfer busnesau newydd a chyfleusterau cynadledda a lletygarwch ar gyfer busnesau a buddsoddwyr ar hyd y coridor hwn. Mae'r Prif Gynllun yn ceisio adeiladu ar hyn drwy ddatblygu rôl safleoedd cyflogaeth presennol Rhymni, er mwyn ategu'r ffocws ar weithgynhyrchu modurol ac uwch-weithgynhyrchu ym Mharth Menter Glyn Ebwy.

Mae Rhymni wedi'i lleoli rhwng Glyn Ebwy a Merthyr ar yr A465 ac, er nad oes ganddi rôl ddynodedig, fel y nodir yng nghynllun cyflawni Tasglu'r Cymoedd, mae ganddi'r 'mas critigol' o dir ac eiddo cyflogaeth sy'n bodoli eisoes, sy'n gryfder cymharol yn AABC, sy'n dangos y gall Rhymni gystadlu ag ardaloedd cyfagos er mwyn denu a chadw busnesau. Mae clwstwr cyflogaeth Rhymni yn cynnwys y safleoedd canlynol:

- Blaenau'r Cymoedd (19.5 ha) – mae 5.2 ha o'r tir sydd heb ei ddatblygu yn parhau ar gael i'w ddatblygu;
- Capital Valley (14.8 ha) – mae 3.3 ha ar y pen deheuol heb ei ddatblygu;
- Ystâd Ddiwydiannol y Maerdy (12.5 ha);
- Ystâd Ddiwydiannol The Lawns (7.3 ha) – mae caniatâd cynllunio i ddatblygu 15 o unedau newydd ar y tir gweddilliol sydd ar gael.

Mae'r clwstwr hwn o ystadau diwydiannol wedi'u lleoli'r naill ochr i ffordd gyswllt yr A469 rhwng y gogledd a'r de, sy'n agos iawn at yr A465, sy'n cynnig mynediad gwych i foduron a cherbydau cludo nwyddau i Ferthyr Tudful tua'r gorllewin ac Parth Menter Glyn Ebwy tua'r dwyrain, Mae Gorsaf Rhymni yn darparu mynediad gwych ar y rheilffordd drwy'r Fwrdeistref Sirol i Gaerdydd, ac mae'r gallu i gludo nwyddau o ben rheilffordd Capital Valley yn unigryw yn ardal Blaenau'r Cymoedd.

Mae'r map canlynol yn nodi safleoedd y Parth Menter yn ogystal â chlwstwr Rhymni, a'r llwybrau trafnidiaeth allweddol sy'n bodoli yn yr ardal leol:

O ystyried agosrwydd Rhymni at y Parth Menter, a'r angen am dwf cyflogaeth ategol er mwyn cyflawni budd economaidd i'r rhan hon o goridor yr A465, cynigir y dylid ehangu cwmpas Parth Menter bresennol Glyn Ebwy i greu Parth Menter Blaenau'r Cymoedd, a fydd yn cyd-fynd â'r twf arfaethedig yn y sector modurol yng Nglyn Ebwy a'r cynnig adwerthu/hamdden ym Merthyr (gan

# Parth Menter Glyn Ebwy a Safleoedd Cyflogaeth Rhymni



gynnwys cynllun arfaethedig Gorllewin Rhydycar). Gyda'i gilydd, bydd y cynigion hyn yn adeiladu ar fuddiannau deuoli'r A465 a'r hwb newydd yng Ngorsaf Rheilffordd Rhymni.

Yn nhermau'r dadansoddiadau sectoraidd a gynhaliwyd ar y sectorau presennol sy'n gweithredu yn yr ardal, mae ardal Rhymni yn gartref i gwmnïau sy'n weithredol ym maes gofal iechyd yn fwy cyffredinol, naill ai o safbwynt gweithgynhyrchu neu gyflenwi. Felly, mae gan y rhan hon o AABC, sy'n cwmpasu Rhymni a'r clwstwr ehangach o gwmnïau cysylltiedig ym Mlaenau Gwent (gan gynnwys PCI Pharma yn Nhafarnaubach), y potensial i ddatblygu'r arbenigedd hwn, ar yr amod y gellir a) cadw a datblygu gweithlu addas; a b) mae'r sylfaen cwsmeriaid yn ddigon hygyrch.

Gallai Parth Menter fwy ym Mlaenau'r Cymoedd gyflwyno cyfleoedd hefyd i AABC yn fwy cyffredinol. Er gwaethaf yr adroddiadau bod twf wedi bod yn araf yn y sector modurol, mae enghreifftiau o gwmnïau yn gweithredu yn y sector ac, os llwyddir i gyflawni'r mas critigol sydd ei angen i'r sector arddangos rhinweddau clystyru yn yr ardal (arbenigedd technegol a chyfalaf cymdeithasol yn lleol sy'n gynhenid i'r maes penodol hwnnw) bydd cyfleoedd i ehangu yn codi, naill ai ar ffurf sectorau modurol ychwanegol, neu sectorau eraill, cyflenwol. Er bod y broses hon yn ddibynnol iawn ar ddatblygu arbenigedd a sgiliau technegol, mae gan ardal Rhymni safleoedd a allai gartrefu datblygiad o'r fath yn Capital Valley (sy'n galw am waith ailddatblygu) ac Ystâd Ddiwydiannol Blaenau'r Cymoedd (sy'n dir heb ei ddatblygu).

Mae gwaith sydd wedi'i wneud gan JLL/ Sutton ar ran Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi cyflwyno canfyddiadau yn nhermau defnydd a galw am y gwahanol gategorïau o eiddo cyflogaeth ac argymhellion ar sut y dylid mynd i'r afael â'r rhain yn ofodol ar draws y rhanbarth. Y rhai sy'n berthnasol i Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd yw:

## Unedau Diwydiannol Bach Traddodiadol B1/B2/B8

Mae astudiaethau ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi nodi cyfraddau deiliadaeth uchel iawn ar gyfer unedau o'r fath. Argymhellir y dylai'r safle cyfartalog a gynigir fod yn 1,500–2,000 troedfedd sgwâr. Mae angen i'r ddarpariaeth o'r unedau hyn ganolbwyntio ar y rhannau hynny o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd sydd y tu allan i Gaerdydd a Chasnewydd lle mae datblygiadau newydd y sector preifat o ofod llawr o'r fath yn ymarferol. Ymhlith y lleoliadau posibl ym Mwrdeistref Sirol Caerffili mae Caerffili/Bedwas, lleoliadau yng nghanol y Cymoedd (Ystrad Mynach, Coed Duon) a Rhymni. Bydd datblygu eiddo o'r fath ymhellach yn fuddiol i fentrau lleol, gan gynnwys rhai elfennau o'r economi sylfaenol, o bosibl.

## Unedau Diwydiannol a Gweithgynhyrchu Mawr B2

Mae nifer gynyddol o ofod llawr yn cael ei ddefnyddio ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ers dirywiad economaidd 2007-10 ac erbyn hyn mae lefelau'r cyflenwad yn agos at ei lefel isel yn hanesyddol, yn

arbennig gofod llawr modern. Mae rhywfaint o ddatblygiadau tybiannol ond mae'r llif o fuddsoddiad uniongyrchol o dramor yn parhau i fod yn isel ond cyson. Ymysg y lleoliadau sy'n cael eu hargymell ar gyfer ymyrraeth mae unedau gweithgynhyrchu mawr yn Oakdale a Rhymni (1 x 50,000 troedfedd sgwâr ac 1 x 25,000).

## Gorsafoedd Metro fel Hybiau Busnes

Awgrymir rhaglen beilot er mwyn ymchwilio i ymarferoldeb trawsnewid gorsafoedd yn hybiau busnes, wedi'u cysylltu'n dda, fel rhan o brif gynllun adfywio cynaliadwy, gyda'r gorsafoedd lleol yn ganolbwynt i hyn. Rhagwelir y bydd y Metro yn cynhyrchu traffig digonol o gymudwyr i gyfiawnhau datblygiad masnachol mewn lleoliadau allweddol ac, mewn amser, hwyluso buddsoddiad y tu hwnt i amgylcheddau'r gorsafoedd. Bydd angen ymyrraeth gan y sector cyhoeddus i ddechrau er mwyn gallu cyflwyno safleoedd o ansawdd a maint digonol. Argymhellir tri chynllun arbrofol fel enghraifft (10,000 troedfedd sgwâr o ofod llawr cyflogaeth) gyda lleoliadau posibl sy'n cynnwys Rhymni.

## Arall

Gyda thwf cerbydau trydan, pwysleisir y diffyg seilwaith gwefru ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Gyda rhaglen ddeuoli barhaus yr A465, mae potensial i greu gorsaf addas ar gyfer cerbydau trydan ar yr A465, a allai ddarparu gwasanaethau i dwristiaeth ac ymwelwyr hefyd.

Nodir Rhymni fel lleoliad a fyddai'n elwa ar ddatblygiad unedau ar gyfer busnesau bach newydd, ac mae galw cryf am hyn a) ar draws y rhanbarth oherwydd y cyfraddau deiliadaeth uchel cyffredinol; a b) yn lleol oherwydd y gyfran isel o stoc addas. Byddai ei leoliad ychydig y tu hwnt i Barth Menter Glyn Ebwy, yn ogystal â'r cysylltiadau trafnidiaeth da a gynigir gan yr A465 a'r A469 tua'r de yn gwella ei hatyniad fel ardal ar gyfer datblygu gweithgareddau sy'n cyd-fynd â gweithgareddau yn y Parth Menter, drwy ddarparu lleoliadau addas. Gallai ffactorau eraill weithio o'i blaid hefyd, pe byddai arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu potensial y rhinweddau hyn:

- Y posibilrwydd o fwy o integreiddio economaidd gyda gweddill y rhanbarth, o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y gwasanaethau yng Ngorsaf Rhymni a rôl bosibl yr Orsaf fel hwb economaidd i AABC;
- Mae presenoldeb pen rheilffordd yn Capital Valley yn rhoi'r gallu i'r ardal drosglwyddo nwyddau, sy'n unigryw yn ardal ehangach y Parth Menter;
- Agwedd gydweithredol defnyddiau masnachol/diwydiannol presennol mewn rhannau eraill o Rhymni, yn benodol Ystadau Diwydiannol The Lawns a'r Maerdy gerllaw;
- Cyfleoedd i annog perchennog pob ystâd ddiwydiannol i ail-frandio eu lleoliadau fel lleoliad busnes unigol, crynhoi adnoddau ac annog dull partneriaeth at ddatblygiadau yn y sector hwn (gyda'r rhai yn y Parth Menter o bosibl);
- Mae gan Rymni bresenoldeb y gwyddorau bywyd eisoes, a gallai darparu stoc busnes modern ddatblygu hyn ymhellach.

Capital Valley




## A - 1 Capital Valley

Mae Capital Valley yn ystâd ddiwydiannol sy'n bodoli eisoes, sy'n cynnwys adeiladau diwydiannol a warws h n, o ansawdd is. Mae'r tir tua'r de yn cael ei ddefnyddio ar gyfer storio agored ac mae yna nifer o adeiladau adfeiliedig/wedi'u dymchwel yn y gogledd. Mae'r rhan fwyaf o'r ystâd wedi'i chynnwys ym mharth llifogydd C2 TAN 15.

Mae pryder nad yw'r stoc bresennol yn addas i'r diben mewn mannau, yn benodol, mae diffyg unedau modern, llai sy'n addas ar gyfer busnesau newydd. Y cyfraddau unedau gwag yn Capital Valley yn 2018 oedd 52.6% yn nhermau nifer yr unedau; 37.2% yn nhermau gofod llawr. Er gwaethaf hyn, mae'r busnesau presennol ar y safle yn cyflogi tua 200 o bobl.

RByddai ailddatblygu'r safle i'w deilwra (neu'n rhannol o leiaf) i anghenion sectorau penodol, wedi'i ategu gan fuddsoddiad i ddatblygu ystod o setiau sgiliau penodol, yn galluogi i fusnesau o'r fath fanteisio ar weithlu sydd wedi'i hyfforddi a'i uwchsgilio

yn briodol. Byddai'n bosibl targedu meysydd gweithgynhyrchu penodol (o bosibl uwch-weithgynhyrchu mewn cysylltiad â'r diwydiant modurol), prosesu, ynni a sefydliadol o bosibl yn cynnwys defnydd cymysg gyda thai neu ddefnyddiau masnachol.

## Egwyddorion Datblygu

- Ailddatblygu'r safle ar gyfer unedau bach, ar gyfer busnesau newydd a datblygiad B2 mwy ;
- Datblygiad defnydd cymysg posibl gan gynnwys tai neu ddefnyddiau masnachol;
- Manteisio ar fodolaeth pen rheilffordd;
- Integreiddio gyda Gorsaf Rhymni a chanol y dref, yn arbennig o ganlyniad i gynnydd yn nifer y teithiau;
- Gwneud y gorau o sefyllfa fanteisiol strategol y safle drwy ystod o ddefnyddiau economaidd, gan gynnwys, o bosibl, dargedu defnyddiau cyflenwol i'r rhai sy'n sail i'r Ardaloedd Menter/Cymoedd Technegol presennol,
- Integreiddio gyda'r model Porth Cyflogaeth sy'n cael ei arwain gan Adfywio Cymunedol, gan ddarparu cyfleoedd hyfforddiant perthnasol i weithluoedd presennol a chyfranogwyr di-waith.

## A - 2 Ystâd Ddiwydiannol The Lawns

Mae Ystâd Ddiwydiannol the Lawns (sydd wedi'i lleoli yn union gerllaw Ystâd Ddiwydiannol y Maerdy) wedi'i lleoli'n ganolog yn Rhymni ar ochr ogledd-ddwyreiniol y clwstwr o ystadau a hon yw'r lleiaf o'r pedair. Mae'r unedau presennol o ansawdd cymedrol, a defnyddir y mwyafrif ohonynt at ddibenion storio, gofod swyddfa a chyfleusterau/defnyddiau eraill llai diwydiannol, ac mae'r safle hefyd yn ganolfan amwynder dinesig. Bydd mynediad i'r ystâd Lawns ond yn bosibl o'r ochr ddeheuol drwy ffordd gyswllt y B4257. Mae galw cryf a bythol gynyddol i ehangu a gwella'r ystâd ar gyfer 'unedau dechreuol' diwydiannol o ansawdd uchel. Yn ogystal â chyfleoedd ychwanegol, posibl ar gyfer ehangu'r ystâd yn y dyfodol, mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud defnydd economaidd buddiol o barsel o dir delfrydol wedi'i danddefnyddio (tua 0.65 hectar o faint) ger yr ystâd bresennol er mwyn ehangu cynnig cyflogaeth y safle yn sylweddol. Bydd hyn yn arwain at ddylunio ac adeiladu unedau ffatri diwydiannol ysgafn, o safon uchel, a'r seilwaith cysylltiedig, i'w cwblhau yn 2020. Bydd y cynllun yn cynnwys yr elfennau allweddol canlynol:

- Seilwaith priffordd fynediad newydd ac ardaloedd parcio;
- Adeiladau cyflogaeth unllawr newydd (x3) – gydag unedau mewnol yn amrywio mewn maint o 50, 70 a 100 metr sgwâr;
- Nodweddion tirlunio cysylltiedig meddal a chaled.

## Egwyddorion Datblygu

- Datblygu unedau ar gyfer busnesau newydd er mwyn bodloni'r galw;
- Integreiddio gofod busnes yn well yn y safleoedd, gwella mynediad;
- Llai o gymudo allan o'r ardal drwy ddarparu mwy o swyddi yn lleol;
- Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y Metro, oherwydd ei agosrwydd at Orsaf Rhymni.

# Ystâd Ddiwydiannol The Lawns



**Mynedfa'r Gogledd/North Entrance**
1 : 100



**Mynedfa Gwedd y De/ South Entrance**
1 : 100



**Mynedfa Gwedd y Gorllewin/West Entrance**
1 : 100

## Ystadau Diwydiannol The Lawns a'r Maerdy




## A - 3 Ystâd Ddiwydiannol Blaenau'r Cymoedd

Wedi'i lleoli oddi ar yr A469 ac wedi'i rhannu'n ddwy ran, mae rhan ogleddol yr ystâd, yn ogystal â chyfran o'r rhan ddeheuol wedi'u diogelu at ddefnydd cyflogaeth yn y Cynllun Cyflenwi Lleol. Mae gweddill y safle wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad cyflogaeth newydd. Mae'r adran ogleddol yn cynnwys eiddo diwydiannol maint canolig, ac mae'r ardal ddeheuol yn cynnwys rhes o unedau llai, un eiddo mawr a thir gwag.

Mae Sharp Clinical Services, rhan o UDG Healthcare ccc, wedi buddsoddi £9 miliwn yn ddiweddar i ariannu cyfleuster newydd gweithgynhyrchu, pecynnu a dosbarthu fferyllol, aml-gam yn y lleoliad hwn gan ychwanegu at yr ystod o gyfleusterau gweithgynhyrchu gwyddorau bywyd ar yr ystâd (mae Convatec Ltd wedi'u lleoli yma hefyd) gan ddangos atyniad yr ardal i gwmnïau gwyddorau bywyd rhyngwladol.

Mae gan y safle gysylltiadau trafnidiaeth da

## Ystâd Ddiwydiannol Blaenau'r Cymoedd




iawn i'r A465, yn ogystal ag argaeledd tir heb ei ddatblygu, sy'n gwella ei statws fel safle posibl ar gyfer lleoli cyfleusterau gwyddorau bywyd a darpariaeth cynadleddau busnes, i wasanaethu coridor ehangach yr A465.

## Egwyddorion Datblygu

- Lleoliad strategol da ar yr A469 ac yn agos iawn i'r A465;
- Argaeledd tir heb ei ddatblygu;
- Adeiladu ar agwedd gydweithredol a defnyddiau masnachol/diwydiannol eraill gerllaw yn Rhymni, yn benodol Capital Valley ac Ystadau Diwydiannol Lawns a'r Maerdy;
- Cyfle i ddatblygu rôl sectorau presennol e.e. gwyddorau bywyd;
- Lleoliad posibl ar gyfer cyfleuster cynadleddau busnes isranbarthol, i'w ddatblygu fel rhan o welliannau cyffredinol i amgylchedd y safle;
- Integreiddio â'r model Porth Cyflogaeth sy'n cael ei arwain gan Adfywio

Cymunedol, gan ddarparu cyfleoedd hyfforddiant perthnasol pwysig i weithluoedd presennol a chyfranogwyr di-waith.

## B - Gwella cydnerthedd cymdeithasol ac economaidd trwy addysg, hyfforddiant a chyngor gyrfaoedd, a meithrin datblygiad yr economi sylfaenol o fewn yr ardal hon i sicrhau bod twf economaidd yn cronni'n decach.

## B - 1 Addysg, Hyfforddiant a Sgiliau

Er mwyn trechu'r amddifadedd economaidd sy'n bresennol yn y rhan fwyaf o ardal AABC ac mewn cydweithrediad â'r cynigion ffisegol a gyflwynir o dan Amcan A, mae angen sicrhau bod mentrau addysg a hyfforddiant addas ar gael, yn ogystal â rhaglenni i leihau diweithdra a datblygu sgiliau trosglwyddadwy.

Bydd hyn yn darparu cyfleoedd amrywiol sy'n gysylltiedig â ffyniant economaidd:

- Darparu'r sgiliau angenrheidiol sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth i bobl leol, cynyddu lefelau sgiliau yn gyffredinol a gwella mynediad pobl at swyddi o safon uchel;
- Meithrin ysbryd o hyder ac entrepreneuriaeth o'r newydd a chynyddu'r tebygolrwydd o lefelau uwch o ddatblygu busnesau cynhenid a thwf economaidd;
- Denu cyflogwyr allweddol, yn arbennig y rhai sy'n gweithredu yn y sectorau gwerth a ychwanegwyd, fel rhan o 'becyn' cyffredinol sy'n cynnwys lleoliadau cyflogaeth modern, addas i'r diben a chysylltedd isranbarthol a rhyngranbarthol da.

Wrth ystyried rôl AABC yng nghyd-destun rhanbarth ehangach Blaenau'r Cymoedd, mae angen addasu dull o'r fath yn briodol i'r uchelgeisiau economaidd sydd wedi'u pennu gan Fenter Tasglu'r Cymoedd a'r Cymoedd Technegol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu lledaenu sgiliau sydd wedi'u haddasu i feysydd twf allweddol yr ardal.

Fel yr amlinellwyd yn Sail i Lwyddiant a'i dogfen ategol Cyflawni Ffyniant, mae angen i sefydliadau perthnasol gyflenwi ar y cyd er mwyn sicrhau dull cynhwysfawr ar gyfer y canlynol:

- Darparu cymorth gyrfaoedd priodol i blant ac oedolion;
- Mynd i'r afael â'r diffyg cyfatebiaeth rhwng y sgiliau sydd eu hangen i gael mynediad at swyddi a'r hyfforddiant sy'n cael ei dderbyn drwy'r cwricwlwm a gan ddarparwyr hyfforddiant;
- Sicrhau bod cyfleoedd uwchsgilio ar gyfer y gweithlu presennol;
- Gwella'r cysylltiadau rhwng sefydliadau addysgol, gan gynnwys ysgolion, a busnesau lleol;
- Integreiddio â'r model Porth Cyflogaeth sy'n cael ei arwain gan Adfywio Cymunedol, gan ddarparu cyfleoedd hyfforddiant perthnasol pwysig i weithluoedd presennol a chyfranogwyr di-waith.

Fel rhan o hyn, mae Tasglu'r Cymoedd yn treialu prosiect ar draws ei ardal, sy'n ceisio cysylltu heriau cymdeithasol ac economaidd gydag atebion entrepreneuraidd cyfraniad torfol, gan ddefnyddio llwyfan arloesedd agored, system gwmwl i sefydlu cysylltiadau gyda sefydliadau addysgol lleol. Yn ei hanfod, bydd y prosiect yn cysylltu busnesau bach a chanolig eu maint lleol gyda'r wybodaeth helaeth sydd gan Brifysgolion a Cholegau, er mwyn cynnig atebion i broblemau busnes bob dydd.

Mae camau gweithredu penodol ar gyfer agweddau addysg, hyfforddiant a sgiliau yn cael eu disgrifio yn Sail i Lwyddiant. Hefyd, mae'r Cyngor yn paratoi Strategaeth Sgiliau, Hyfforddiant a Chyflogaeth a fydd yn datblygu ffyrdd o wella cyrhaeddiad sgiliau ymhellach.

## B - 2 Yr Economi Sylfaenol

The Diffiniwyd yr economi sylfaenol fel "defnydd cymdeithasol o nwyddau a gwasanaethau hollbwysig". Mae'n cynnwys pethau fel gofal iechyd, addysg, prosesu ac adwerthu bwyd, cyfleustodau a seilwaith. Yn ôl ei natur, mae'n bodoli lle mae'r galw yn lleol ac yn barhaol ac felly, mae'r economi sylfaenol yn bodoli ar draws ardal gyfan AABC.

Am y rheswm hwn, mae'r amcan hwn yn un trawsbynciol sy'n cwmpasu'r ardal gyfan, yn hytrach na safleoedd penodol. Gellir gwella cydnerthedd drwy fuddsoddi mewn cwmnïau a sefydliadau o fewn yr economi sylfaenol, a bydd Cronfa Her yr Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru yn cynnig cefnogaeth i sefydliadau a busnesau i gyflwyno ffyrdd arloesol o weithio. Gall Gwasanaeth Cymorth Busnes y Cyngor gynorthwyo sefydliadau a allai fod yn awyddus i dderbyn y cyllid hwn.

Mae gan Cymorth Busnes swyddogaeth hefyd yn nhermau gweithio gyda busnesau i sefydlu rhwydweithiau cydweithredol, i sicrhau y gellir sefydlu cadwyni cyflenwi lleol pan nad ydynt yn bodoli, gwasanaethu i gadw arian yn yr economi leol. Elfen arall gysylltiedig yw darparu stoc busnes addas – bydd darparu unedau modern ar gyfer busnesau newydd ar ystadau megis Capital Valley yn helpu i ychwanegu at eiddo presennol mewn lleoliadau megis Tredegar Newydd a darparu gofod busnes addas i'r diben i gwmnïau lleol. Bydd y model Porth Cyflogaeth yn darparu cyfleoedd hyfforddiant perthnasol allweddol i weithluoedd presennol a chyfranogwyr di-waith (yn benodol cymorth mewn gwaith ac uwchsgilio gweithluoedd presennol).

Gall prosesau caffael cynghorau a helpu hefyd drwy fuddsoddi yn sefydliadau Blaenau'r Cymoedd yn lleol, ar gontractau lleol penodol pan fo'n bosibl. Bydd hyn yn sicrhau bod contractau yn creu budd cymdeithasol, a sicrhau bod prosiectau seilwaith yn cyflawni budd cymunedol. Mae angen sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni mewn ffordd sy'n meithrin gallu busnesau lleol, a chynnig cyflogaeth hirdymor a hyfforddiant.

Bydd darparwyr addysg a hyfforddiant yn bwysig yn yr ymdrechion i feithrin y sgiliau perthnasol sydd eu hangen i alluogi sefydliadau i gynnal rhwydweithiau cydweithredol a chael mynediad at gyfleoedd

i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru. Bydd Rhwydweithiau Llesiant Integredig, sy'n ceisio cysylltu cryfderau ac asedau cymunedau hefyd yn berthnasol ac mae'r rhain yn cael eu trafod ymhellach o dan Amcan H.

## C - Ehangu cylch dylanwad yr ardal a gwella cysylltedd

Mae AABC wedi'i lleoli o fewn coridor ehangach yr A465, sy'n ymestyn o Gastell-nedd yn y gorllewin i'r Fenni yn y dwyrain (yng nghyd-destun Cymru) cyn croesi i Ganolbarth Lloegr, gydag aneddiadau yn rhan ogleddol yr ardal, sy'n gweithredu yn benodol o fewn cwmpas dylanwad canolfannau cyfagos, megis Merthyr a Glyn Ebwy. Mae'n ddiddorol nodi ei bod yn cymryd yr un amser i deithio ar y ffordd o Rhymni i Ganolbarth Lloegr neu Lundain ag y mae o Gaerdydd. Fodd bynnag, mae gan lwybr yr A465 y budd ychwanegol o osgoi tagfeydd traffig Twneli Bryn-glas a Phont Hafren, sy'n golygu bod AABC yn gynnig atyniadol i fusnesau sefydlu eu hunain yno.

## Deuoli'r A465

Cwblhawyd y gwaith i ddeuoli cefnffordd yr A465 Blaenau'r Cymoedd gyda Rhan 3 (Brynmawr i Dredegar) yn 2015. Mae Rhan 2, o Gilwern i Frynmawr, yn mynd rhagddo yn awr, er bod y rhan hon yn fwy heriol yn dechnegol. Bydd Rhannau 5 a 6, o Dowlais Top i Hirwaun yn dilyn ac yn cwblhau'r prosiect. Er bod yr A465 yn darparu cyfleoedd yn nhermau cynyddu hygyrchedd rhwng aneddiadau o fewn y coridor, mae risg y bydd yn crynhoi datblygiadau, a'u buddiannau cysylltiedig, yn y rhai yr ystyrir eu bod yn bwysig yn strategol mewn cyd-destun rhanbarthol h.y. Merthyr. Bydd creu Parth Menter Blaenau'r Cymoedd yn darparu'r sail ar gyfer cyflawni buddiannau economaidd cynhwysfawr ar hyd coridor cyfan yr A465, trwy gyfateb buddsoddiad yn y seilwaith trafnidiaeth gyda buddsoddiad yn ffabrig ffisegol economïau lleol a hefyd yn nhermau'r gofynion addysgol a sgiliau sy'n hollbwysig er mwyn cefnogi sectorau twf economaidd.

Mae llwybr cydnerthedd yr A469 yn ddyhead allweddol yn nhermau gwella'r cysylltedd rhwng rhannau gogleddol a deheuol AABC, a gwella cydnerthedd yn nhermau seilwaith priffyrdd yr ardal.

## Metro De Cymru

Bydd menter Metro De Cymru yn darparu cyfle i adeiladu ar y ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes yn AABC:

- Creu rhwydwaith trafnidiaeth integredig ac aml-ddull, sy'n cynnwys rheilffordd draddodiadol, rheilffordd ysgafn a chludiant bws cyflym (BRT);
- Buddsoddiad o £77 miliwn mewn pecyn o welliannau seilwaith Cam 1 ar draws y rhanbarth;
- Cam 2, a fydd yn cynnwys gwaith trawsnewid mawr i'r rhwydwaith rheilffordd presennol ar draws y rhanbarth, gan gyflwyno gwasanaethau cyflymach ac amlach (pedwar trên yr awr), gorsafoedd newydd, gwaith integreiddio gwell a chyflwyno stoc o gerbydau newydd a

gwell. Bydd hyn yn sicrhau hygyrchedd gwell a bydd yn gwella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a gwasanaethau a chyfleusterau eraill ar draws y rhanbarth yn ehangach ac yn benodol i gymunedau ar gledrau craidd y cymoedd i'r gogledd o Gaerdydd ac, yn benodol, Rheilffordd Rhymni.

Yn nhermau amserlenni, rhagwelir y bydd Cam 2 yn weithredol hyd at 2023, gyda chamau pellach (y tu hwnt i gledrau craidd y cymoedd) i ddilyn.

Bwriedir i'r Metro fod yn gatalydd ar gyfer trawsnewid rhagolygon economaidd a chymdeithasol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd cynyddu cysylltedd yn cyflawni'r canlynol:

- Budd economaidd uniongyrchol drwy fynediad mwy cyfleus at gyflogaeth ar draws y rhanbarth;
- Budd cydgasglol;
- Budd datblygu ac adfywio coridorau allweddol ac o amgylch gorsafoedd allweddol;
- Budd amgylcheddol a chynaliadwyedd;
- Sicrhau bod y gymuned yn ymgysylltu'n llawn a'i bod yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r gwaith arfaethedig. Mae'n bosibl defnyddio hybiau Adfywio Cymunedol presennol er mwyn sicrhau bod holl elfennau'r gwaith yn cael ei gynnwys, ochr yn ochr â chontractau sy'n gysylltiedig â budd cymunedol.

Yn lleol, bydd y gwelliannau gweithredol i Reilffordd Rhymni, er mwyn galluogi gwasanaethau amlach a chyflymach, yn cael eu cyflawni yn ystod Cam 2. Mae llwybrau cludiant bws cyflym posibl rhwng Rhymni a Glyn Ebwy, a Rhymni a Merthyr, hefyd yn bosibiliadau ar gyfer y dyfodol.

Awgrymir rhaglen beilot er mwyn ymchwilio i ymarferoldeb trawsnewid gorsafoedd yn hybiau busnes, wedi'u cysylltu'n dda, fel rhan o brif gynllun adfywio cynaliadwy, gyda'r orsaf leol yn ganolbwynt i hyn. Rhagwelir y bydd y Metro yn cynhyrchu traffig digonol o gymudwyr i gyfiawnhau datblygiad masnachol mewn lleoliadau allweddol ac, mewn amser, hwyluso buddsoddiad y tu hwnt i amgylchedd uniongyrchol yr orsaf. Bydd angen ymyrraeth gan y sector preifat i ddechrau er mwyn cyflwyno safleoedd o ansawdd a maint digonol. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru i gyflwyno rhaglen beilot yng Ngorsaf Rhymni.

## Cerbydau Trydan

Mae'r Cyngor yn ystyried ymarferoldeb darparu mannau gwefru ar gyfer cerbydau trydan, yn dilyn ymrwymiad i gynyddu'r defnydd o gerbydau trydan a chreu rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus trydan yn unig. Sicrhawyd cyllid drwy gynllun OLEV ar gyfer mannau gwefru mewn meysydd parcio ger ardaloedd preswyl nad oes ganddynt fannau parcio oddi ar y ffordd a chynllun arfaethedig yn Teras Dyffryn, Eliot's Town, gyda'r posibilrwydd o leoliadau ychwanegol a fydd yn fuddiol i Orsaf Pontlotyn a Pharc Cwm Darran.

## Cysylltedd Digidol

Mae Cysylltedd Digidol yn hollbwysig os yw economi AABC am wella. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu menter Cyflymu Cymru, er mwyn ehangu cwmpas band eang cyflym iawn i'r ardaloedd hynny ar draws Cymru nad ydynt wedi'u cynnwys mewn rhaglenni cyflwyno masnachol. Daeth y rhaglen hon i ben yn 2016 ac mae wedi cael cryn lwyddiant yn cyflwyno darpariaeth band eang cyflym iawn ar draws y sir.

Mae ansawdd a chyflymder cysylltedd digidol o'r fath yn bwysig iawn i'r gymuned fusnes, yn nhermau gallu manteisio ar gyfleoedd eraill yn y farchnad, eangu gweithrediadau a chael effaith gadarnhaol ar broffidioldeb. Fodd bynnag, mae'r gallu i gyflawni'r llwyddiant drwy ddarparu seilwaith o'r fath yn ddibynnol ar gyfraddau defnyddio, ac felly anogir busnesau ar hyd a lled ardal AABC i ddatgloi eu potensial llawn drwy ddefnyddio technoleg ddigidol.

Mae'n bosibl bod rhai ardaloedd yn parhau i brofi cysylltedd gwael mewn rhai rhannau o

## Tir o gwmpas Gorsaf Rhymni



AABC, ac felly mae angen cyfleoedd i fynd i'r afael â hyn drwy:

- Ehangu'r ddarpariaeth o seilwaith digidol gwell, pan fydd angen; a
- Cysylltu seilwaith gwell i fusnesau a chartrefi, drwy ailddatblygu ac addasu;
- Defnyddio gwasanaethau presennol megis Dydd Gwener Digidol, llyfrgelloedd lleol a lleoliadau allgymorth lleol, i wella llythrennedd digidol a darparu mynediad at fand eang mewn ardaloedd difreintiedig lle na fyddai pobl yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth TGCh;
- Cysylltu â'r model Porth Cyflogaeth er mwyn gwella sgiliau sylfaenol yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ac ynysig.

## C - 1 Tir o gwmpas Gorsaf Rhymni

O fewn 100m i Orsaf Rhymni mae Canolfan Fenter Whitbread a hen Goleg Rhymni. Mae potensial i ran o'r tir hwn gael ei ailddatblygu fel hwb busnes aml-swyddogaeth, gofod gweithio ac elfen fasnachol, gan gynnwys cyfleusterau ar gyfer cynnal cyfarfodydd. Ochr yn ochr â'r cynnydd yn nifer y teithiau yn sgil y Metro, byddai hyn yn galluogi'r orsaf a'i amgylchedd cyfagos i fanteisio ar y fantais economaidd a gynigir o ganlyniad i gysylltedd gwell i farchnadoedd allanol, yn ogystal â chreu canolbwynt amlbwrpas yn agos at ganol tref Rhymni a'r eiddo busnes newydd ychwanegol yn The Lawns.

Fel rhan o'r buddsoddiad sy'n cael ei wneud fel rhan o'r cynllun Metro, mae'r Cyngor yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i sicrhau gwelliannau i Orsaf Rhymni. Bydd y gwelliannau yn cynnwys cyfleusterau sefydlog gwell, ehangu ac ailfodelu platfformau, mannau parcio ychwanegol, bloc toiledau ac ystafelloedd aros newydd, raciau beiciau a gwella'r cyfleusterau tocynnau a wifi.

## Egwyddorion Datblygu

- Mantais economaidd oherwydd ei agosrwydd at yr orsaf reilffordd, yn ogystal â chwmnïau eraill sydd wedi'u lleoli ar ystadau diwydiannol gerllaw;
- Gwneud y defnydd gorau o dir gwag/sy'n cael ei danddefnyddio;
- Darparu unedau ar gyfer busnesau newydd/hybu busnesau sy'n addas ar gyfer cwmnïau sydd angen mynediad at seilwaith trafnidiaeth;
- Datblygu elfen aml-swyddogaeth;
- Gwelliannau pellach i Orsaf Rhymni fel rhan o'r Metro;
- Cynyddu nifer y teithiau.

## C - 2 Gorsafoedd eraill (Bargod, Pontlotyn, Brithdir, Tirphil)

Mae Trafnidiaeth Cymru yn bwriadu gwneud gwelliannau cyffredinol o dan gynllun y Metro ar gyfer Gorsafoedd Bargod, Pontlotyn, Brithdir a Thirphil, gan gynnwys mynediad gwastad, goleuadau a raciau beiciau, cyfleusterau tocynnau a wifi. Mae dyhead hefyd i ddarparu mannau parcio ychwanegol yng Ngorsaf Bargod, a thrafodir hyn yn ddiweddarach.

Mae'r posibilrwydd o osod seilwaith gwefru cerbydau trydan yng Ngorsaf Pontlotyn yn ystyriaeth hefyd o dan gynllun grantiau OLEV.

## C - 3 Hwb Trafnidiaeth yr A465/A469

Mae posibilrwydd i ystyried datblygu

## Hwb Trafnidiaeth yr A465/A469




cyfnewidfa drafnidiaeth yn agos at gyffordd yr A465 a'r A469, gan gysylltu'r prif lwybrau o'r dwyrain i'r gorllewin a'r gogledd i'r de yn y rhan hon o goridor Blaenau'r Cymoedd. Mae'n debygol y byddai'r cynllun hwn yn cael ei gyflwyno fel rhan o un o'r camau buddsoddi diweddarach (ar ôl Cam 2 Metro) o dan Metro Plus, ac wedi'i ariannu drwy'r Fargen Ddinesig.

## Egwyddorion Datblygu

- Darparu parcio a theithio rhwng yr A465 a Gorsaf Rhymni;
- Datblygu cysylltiadau gyda llwybrau teithio arfaethedig a phresennol (B-4);
- Agos at amwynderau twristiaeth a hamdden – cynnig treftadaeth y Drenewydd, Cronfa Ddwr y Drenewydd, Parc Bryn Bach;
- Creu cysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy rhwng yr A465 a'r ddarpariaeth cyflogaeth newydd ym Mharth Menter arfaethedig Blaenau'r Cymoedd.

## C - 4 Llwybr Cydnerthedd yr A469

Er bod Metro a rôl gynyddol trafnidiaeth gyhoeddus yn hollbwysig ar gyfer datblygiad

## Llwybr Cydnerthedd yr A469




cynaliadwy AABC, mae integreiddio modelau gwahanol yn hanfodol yn nhermau sicrhau bod cymunedau wedi'u cysylltu'n dda.

Mae cau'r A469 rhwng Tredegar Newydd a Rhymni, yn dilyn tirlithriad ym mis Chwefror 2014, wedi dangos pwysigrwydd y llwybr hwn i hygyrchedd ardal y Prif Gynllun. Mae angen buddsoddiad er mwyn sicrhau cydnerthedd gwell i'r llwybr er mwyn cynnal mynediad i'r rhan hon o'r fwrdeistref sirol. Mae lefelau cysylltedd uwch yn hollbwysig ar gyfer datblygiad cymunedau cynaliadwy a chynyddu atyniad yr ardal fel cyrchfan i fusnesau ac ymwelwyr.

Mae gwaith eisoes wedi'i wneud ar ymarferoldeb datblygu llwybr priffordd newydd rhwng Tredegar Newydd ac Abertyswg, ac ar hyn o bryd mae ymchwiliadau daear ar y gweill ar y llwybr presennol. Yna gall asesiad lywio'r opsiwn gorau i sicrhau'r llwybr ar gyfer y dyfodol. Ar ôl archwilio'r holl lwybrau a buddion cost, bydd opsiynau ariannu yn cael eu harchwilio.

### C - 5 Hen Safle Skinner, Rhymni

Mae'r safle yn ffurfio stribyn o dir gwag i'r

## Hen Safle Skinner




gogledd o Ystâd Ddiwydiannol Blaenau'r Cymoedd, sef hen leoliad cwmni gwerthu ceir Ron Skinner. Mae'r safle yn tua 0.8ha ac mae wedi'i leoli'n agos at yr A469 ac yn agos iawn (o fewn 1 cilomedr) i'r A465, er bod y safle cyfan wedi'i leoli o fewn ardal lle ceir perygl o lifogydd C2.

Mae lleoliad y safle, sydd wedi'i lleoli'n ddelfrydol ar hyd y prif wythiennau trafnidiaeth, yn darparu cyfle i fynd i'r afael â dau fater:

- Yr angen am leoliad gwasanaethau ar y rhan hon o'r A465, er mwyn gweithredu fel 'atyniad' i draffig sy'n teithio rhwng Merthyr a Blaenau Gwent;
- Y prinder mannau gwefru cerbydau trydan yn y rhan hon o'r Fwrdeistref Sirol ac ar hyd y rhan hon o'r A465 – nid oes unrhyw rai rhwng Merthyr a Brynmawr.

## Egwyddorion Datblygu

- Mae perygl o lifogydd yn y safle hwn, oherwydd defnyddiau blaenorol, problemau llygredd posibl y mae angen mynd i'r afael â hwy;

- Safle tir llwyd hygyrch, sydd wedi'i glirio, y gellir ei ddatblygu;
- Cyfle i gyflawni rhyw fath o ddatblygiad masnachol/cysylltiedig â gwasanaethau yn union oddi ar yr A465;
- Byddai datblygiad yn y lleoliad hwn yn gweithredu fel 'atyniad' i'r ardal, a chynyddu lefelau gwariant defnyddwyr;
- Yn agos iawn at Ystâd Ddiwydiannol Blaenau'r Cymoedd – gallai datblygu cyfleuster rhanbarthol ar gyfer cynadleddau busnes yn y lleoliad hwn wella atyniad economaidd datblygiad o'r fath;
- Integreiddio â'r model Porth Cyflogaeth sy'n cael ei arwain gan Adfywio Cymunedol, gan ddarparu cyfleoedd hyfforddiant perthnasol pwysig i weithluoedd presennol a chyfranogwyr di-waith.

## C - 6 Dyffryn Terrace, Tref Eliot

Mae cyllid wedi'i sicrhau o dan gynllun grantiau OLEV ar gyfer gosod mannau gwefru cerbydau trydan yn Dyffryn Terrace, Tref Eliot. Bydd hyn yn galluogi i ddau fan gwefru gael

### Dyffryn Terrace, Tref Eliot



eu gosod i wasanaethu pedair cilfach parcio i breswylwyr heb fannau parcio oddi ar y stryd

## C - 7 Llwybrau Teithiau Llesol

Mae teithio llesol yn cynnwys llwybrau cerdded a beicio ar gyfer teithiau bob dydd, gan gynnwys i'r ysgol, gwaith, siopau ac i gael mynediad at wasanaethau, er enghraifft canolfannau iechyd neu hamdden. Mae llwybrau teithio llesol yn bwysig er mwyn hyrwyddo ffordd o fyw iachach a chynyddu cysylltedd a hygyrchedd.

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn nodi lleoliadau dynodedig ar gyfer darparu llwybrau teithio llesol. Er nad yw pob lleoliad yn Ardal y Prif Gynllun wedi'u cynnwys o fewn dynodiad o'r fath, mae nifer o gynlluniau wedi'u nodi yn ardal y Prif Gynllun. Mae'r rhain yn seiliedig ar y Map Llwybrau Presennol (a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018) a'r Map Rhwydwaith Integredig, sy'n cyflwyno cynigion y Cyngor ar gyfer y 15 mlynedd nesaf. Mae'r cynlluniau hyn yn ymgorffori cyfuniad o lwybrau beicio a llwybrau troed yn ogystal â llwybrau a rennir ac maent wedi'u nodi isod:

| Cymuned | Disgrifiad | Statws | Math o Ddefnydd |
|---|---|---|---|
| Rhymni | Cysylltiad newydd o Ty Coch i'r llwybr presennol ac Ystâd Ddiwydiannol Blaenau'r Cymoedd | Newydd | Defnydd a rennir |
| Rhymni | Cysylltiad newydd o'r llwybr presennol i'r ysgol gynradd, canol y dref a chyfleusterau hamdden | Newydd | Defnydd a rennir |
| Rhymni | Cysylltiad newydd o'r llwybr presenno i ardal breswyl Twyn Carno | Newydd | Defnydd a rennir |
| Rhymni | Cysylltiad di-draffig amgen o'r llwybr presennol yn uniongyrchol i Orsaf Rhymni | Newydd | Defnydd a rennir |
| Rhymni | Gwelliannau i gysylltiad presennol o Ysgol Gynradd Brynawel trwy'r ardal hamdden i Mount Batten | Uwchraddio | Defnydd a rennir |
| Pontlotyn | Cysylltiad newydd di-draffig o ystâd dai Brynhyfryd i ganol pentref Pontlotyn trwy safle'r ysgol | Newydd/ uwchraddio | Defnydd a rennir |
| Tredegar Newydd | Gwella cysylltiad defnydd a rennir o Ysgol Gynradd y Rhosyn Gwyn i Dreffilip trwy Stryd yr Ysgol | Newydd | Defnydd a rennir |
| Aberbargod | Cysylltiad newydd rhannu defnydd di-draffig o Aberbargod i Orsaf Bargod. Cysylltu gyda'r llwybr teithio Llesol presennol | Newydd | Defnydd a rennir |
| Gilfach | Cyswllt newydd o Gilfach Fargoed/Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed i gyfleusterau hamdden | Newydd | Defnydd a rennir |

# Llwybrau Teithio Llesol Rhymni



# Rhymni ac Abertyswg



# Tredegar Newydd



# Bargod


Parc Cwm Darran
BARGOED/
BARGOD
Parc Coetir Bargod
Bowen Industrial estate
Angel Lane
Britannia Centre for Enterprise
Aberbargod/
Aberbargoed
Gilfach
Cefn Fforest
Bedwellty
ccbc4a
ccbc4b
INMC8
INMC91
INMC9
INMC100
INMC45
INMC46
INMC40
Ysgol / School
LC
PO

## D - Atgyfnerthu rôl Bargod fel canolfan gwasanaeth ar gyfer gogledd y Fwrdeistref Sirol

Mae Bargod yn gwasanaethu fel y brif dref ar gyfer gogledd y Fwrdeistref Sirol ac felly mae gan y dref rôl fel ei phrif leoliad adwerthu, manwerthu a gwasanaethau. Yn y blynyddoedd diweddar, bu datblygiadau cadarnhaol yng nghanol tref Bargod yn dilyn cwblhau Angel Way sydd wedi gwella hygyrchedd, datblygiad Morrison's a Lowry Plaza ac ail-leoli Llyfrgell Bargod a Chanolfan Cwsmer yn Gyntaf i hen Gapel Hanbury. Fodd bynnag, mae heriau'n parhau ar ffurf cyfraddau gwacter uchel (22.9% yn 2018), yn benodol yn rhan ogleddol canol y dref ger y gorsafoedd bysiau a rheilffordd.

Mae'r ffaith bod y gorsafoedd yn agos, yn ogystal â'r gwelliannau arfaethedig i'r rhwydwaith fel rhan o'r cynigion Metro, yn darparu cyfle i Fargod arallgyfeirio ei rôl a chynyddu defnyddiau eraill (darparu gwasanaethau, swyddfeydd, preswyl) yn ogystal â chydgrynhoi ei chynnig adwerthu.

Mae angen yn parhau am ddatblygiad masnachol pellach ar weddill y llwyfandir adwerthu, a chreu 'ardal fusnes' yn rhan ogleddol canol y dref sy'n cynnwys ailddatblygu'r unedau adwerthu gwag.

### D - 1 Tir yng Ngorsaf Bargod

Mae uchelgais yn bodoli drwy fenter Metro i ehangu'r ddarpariaeth meysydd parcio ym Margod, yn unol â chynnydd yn nifer y teithiau, er nad yw tir wedi'i nodi'n benodol ar gyfer hyn eto. Fel rhan o hyn, mae posibilrwydd ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan, yn unol ag ymrwymiad y Cyngor i greu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus trydan yn unig. Mae Trafnidiaeth Cymru yn cynllunio gwelliannau cyffredinol i orsafoedd hefyd, gan gynnwys bloc toiledau newydd.

### Egwyddorion Datblygu

- Cynyddu gallu Bargod i wasanaethu fel lleoliad parcio a theithio, a gwella cynaliadwyedd y cyfleuster;
- Mae lleoliad y safle ger yr orsaf bysiau yn atgyfnerthu ei botensial fel cyfnewidfa aml-ddull;
- Gallai defnydd cynyddol o'r orsaf gynyddu nifer yr ymwelwyr i ganol y dref;
- Gwneud y defnydd gorau o rôl rhan ogleddol canol y dref drwy'r cysyniad 'ardal fusnes' (D-2).

### D - 2 Ardal Busnes a Stryd Fawr Bargod

Mae'r ardal benodol o ganol y dref yn cynnwys nifer o unedau adwerthu sydd at ei gilydd yn wag, adeilad yr Emporium, swyddfa Ty Bargod y Cyngor a'r maes parcio cysylltiedig.

Mae gan y fenter Metro y potensial i ddatblygu cwmpas dylanwad Bargod mewn cyd-destun rhanbarthol. Mae'r gorsafoedd bysiau a rheilffordd wedi'u lleoli yn rhan ogleddol canol y dref ac felly gall weithredu fel cyswllt yn yr ardal hon. Mae integreiddio'r elfennau hyn yn cynnig cyfle i ailddatblygu'r rhan hon o ganol y dref a'r atyniad o ddefnyddiau ychwanegol, nad ydynt yn ddefnyddiau adwerthu, er enghraifft darparu gwasanaethau neu swyddfeydd, y

posibilrwydd o ymgorffori tai fel datblygiad defnydd cymysg, amrywio rôl canol y dref a chynyddu hyfywedd y defnyddiau adwerthu a gwasanaethau presennol. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni hyn, mae angen cyflwyno cyfleusterau, gan gynnwys yr orsaf, mewn goleuni cadarnhaol yn nhermau eu hymddangosiad, eu hymarferoldeb a'r cysylltiadau sy'n bodoli gyda'r ardal amgylchynol, gan gynnwys rhan ogleddol canol y dref.

Dylid manteisio ar ansawdd neilltuol adeilad yr Emporium fel canolbwynt yn y dref, ac mae posibilrwydd y gallai fod yn lleoliad ar gyfer adwerthu annibynnol, gan adeiladu ar y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a fydd yn cael ei ysgogi yn sgil ailddatblygu rhan ogleddol canol y dref.

## Egwyddorion Datblygu

- Ailddatblygu eiddo gwag ar gyfer gwasanaethau/swyddfeydd/unedau preswyl;
- Cyfle i ailddatblygu yn agos at yr orsaf, a manteisio ar y cysylltiadau Metro;

## Ardal Busnes a Gorsaf Bargod



- Adeilad yr Emporium fel lleoliad posibl ar gyfer cynnig adwerthu annibynnol/crefftwyr;
- Ychwanegu defnyddiau sy'n ategu'r rhai presennol e.e. swyddfeydd, gan grynhoi hyfywedd y defnydd adwerthu a gwasanaethau presennol a chynyddu nifer yr ymwelwyr.

## D - 3 Llwyfandir Adwerthu Bargod

Mae datblygiad Llwyfandir Adwerthu Bargod wedi helpu i drawsnewid ochr ddeheuol canol y dref, gyda datblygiad archfarchnad newydd Morrison's, Lowry Plaza a'r gwelliannau i dir cyhoeddus. Fodd bynnag, mae tir yn bodoli ar ochr ddeheuol y llwyfandir, sydd mewn lleoliad delfrydol ar gyfer datblygu masnachol, o ystyried ei agosatrwydd at Angel Way. Rhoddwyd caniatâd yn 2019 ar gyfer bwyty teulu/tafarn, sy'n awgrymu diddordeb yn y farchnad.

## Egwyddorion Datblygu

- Datblygu at ddefnydd masnachol, sy'n ategu'r defnyddiau adwerthu yn Lowry Plaza a Hanbury Road/Stryd Fawr;

## Llwyfandir Adwerthu Bargod a'r Hen Sinema, Sgwâr Hanbury



- Mynediad da at ganol y dref ac Angel Way;
- Arallgyfeirio'r cynnig canol y dref drwy ddefnydd masnachol ychwanegol e.e. tafarn/bwyty;
- Posibilrwydd i gynyddu nifer yr ymwelwyr, a fydd yn fuddiol i'r defnyddiau presennol.

## D - 4 Yr Hen Sinema, Sgwâr Hanbury

Mae'r safle yn cynnwys yr hen sinema ar Sgwâr Hanbury, sy'n wag ar hyn o bryd ac sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad masnachol yn y Cynllun Cyflenwi Lleol mabwysiedig. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad swyddfeydd yn 2007. Mae'r safle yn agos at ddatblygiad newydd Lowry Plaza a Llwyfandir Adwerthu Bargod. Rhagwelir y bydd datblygu gweddill y llwyfandir adwerthu at ddefnydd masnachol yn cynyddu nifer yr ymwelwyr yn y rhan hon o ganol y dref ac yn cynyddu diddordeb datblygwyr. Felly, mae cyfle i ailddatblygu'r sinema ar gyfer defnyddiau amgen, er enghraifft swyddfeydd neu ddefnydd cymysg neu breswyl.

## Egwyddorion Datblygu

- Ailddefnyddio'r stoc bresennol;
- Cyfle i ddechrau gwneud defnydd buddiol o'r newydd o'r sinema yng nghanol y dref;
- Y posibilrwydd o gynyddu diddordeb datblygwyr ac amrywio defnyddiau canol y dref.

## E - Gwneud y mwyaf o effaith Parc Rhanbarthol y Cymoedd, amddiffyn a gwella mannau gwyrdd a'r dreftadaeth adeiledig pwysig a hyrwyddo twristiaeth

Mae cynllun Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn ceisio sefydlu model ar gyfer rheoli rhwydwaith o barciau gwledig, asedau naturiol eraill, safleoedd treftadaeth ac atyniadau ar draws y Cymoedd, gan gysylltu gyda threfi a phentrefi. Ceisia wneud hyn drwy dair thema rhyng-gysylltiedig:

- Diogelu a gwella rhinweddau tirwedd penodol yr ardal;
- Hyrwyddo llesiant drwy fwynhad a dealltwriaeth o'i dirweddau;
- Hyrwyddo dulliau cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol a datblygiad cymunedol sy'n cefnogi ei dreftadaeth ddiwylliannol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi pedwar safle o fewn coridor ehangach yr A465 fel 'Pyrth Darganfod' Parc Rhanbarthol y Cymoedd:

- Canolfan Ymwelwyr Treftadaeth Byd Blaenafon (Torfaen);
- Parc Gwledig Dare Valley (Rhondda Cynon Taf);
- Parc Cyfartha (Merthyr);
- Parc Bryn Bach (Blaenau Gwent/Caerffili).

Mae gwaith yn parhau i asesu rhinweddau'r safleoedd hyn gyda'r bwriad o roi cynlluniau datblygu ar waith, gyda'r nod o ddarparu cyfleusterau o safon uchel yn gyson er mwyn gweithredu fel fframwaith ar gyfer datblygu rhwydwaith ar draws y Cymoedd. Yn AABC, bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau sy'n gallu ategu'r cynnig presennol yn y Fwrdeistref Sirol a thu hwnt, gan gynnwys:

# Pyrth Darganfod, Parciau Gwledig a'r Atyniadau Sy'n Bodoli Eisoes



- Parc Cwm Darran;
- Parc Bryn Bach;
- Ardal Gadwraeth y Drenewydd, Cronfa Ddwr y Drenewydd;
- Y Ty Weindio, Tredegar Newydd;
- Glofa Markham;
- Parc Coetir Bargod;
- Tir Comin.

Mae angen i'r gweithgareddau ganolbwyntio ar sicrhau'r nifer fwyaf o alw gan ymwelwyr, yn ogystal â sefydlu rhwydweithiau rhwng cyfleusterau, ac ystyried y Pyrth Darganfod yn yr ardal a'r atyniadau eraill sy'n gysylltiedig â'i gilydd. Yng nghyd-destun coridor ehangach yr A465, mae'r rhain yn cynnwys:

- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;
- Bike Park Wales, Merthyr;
- Gorllewin Rhydycar, Merthyr (o bosibl);
- Cyfleuster Zip World, Hirwaun (o bosibl);
- Canolfan gweithgarwch awyr agored Rock UK, Treharris.

## Llety

Mae llety'n un agwedd sy'n gallu cyfrannu at dwf economaidd mewn ffyrdd mwy cyffredinol, ynghyd â chyfraniad y themâu ehangach o ddatblygu economaidd a thwf y sectorau twristiaeth ac ymwelwyr. Ar hyn o bryd mae diffyg llety o ansawdd da yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd. Mae hyn yn cydgysylltiedig gydag angen i gynyddu gwerth yr economi leol a'i chael i gynnig gymaint ag y bo modd fel lleoliad i ymwelwyr, gyda'r atyniadau a chyfleusterau i gyd-fynd â hynny.

Bydd y cynnydd mewn cysylltedd o ganlyniad i'r Metro a deuoli'r A465 o fudd o ran darparu cysylltiadau cryfach rhwng atyniadau ymwelwyr, a hefyd rhwng Blaenau'r Cymoedd, gweddill Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a mannau eraill. Gall hyn felly gynorthwyo'r ardal o ran marchnata ei hun fel cyrchfan, ar sail tair agwedd:

- Ei hamgylchedd naturiol, yn cynnwys y cyfleoedd mae hyn yn ei ddarparu fel cyrchfan ar gyfer gweithgareddau;
- Ei threftadaeth gymdeithasol a diwylliannol;
- Ei sail economaidd, sy'n datblygu ac yn cryfhau, ac yn cynnig cyfleoedd busnes newydd.

Mae profiad o fannau eraill yn dangos bod y sector llety'n datblygu ar gefn cynnydd mewn galw fel cyrchfan e.e. cafodd llety ei ddatblygu ym Merthyr ar gefn Beic Parcio Cymru. Yn AABC, mae angen canolbwyntio mewn ffordd ddeublyg ar hyn, sef darparu llety ar gyfer cyflogaeth/busnes yn ogystal ag ymwelwyr hamdden.

## E - 1 Parc Cwm Darran

Parc Cwm Darran yw un o'r pum parc gwledig sydd gan y Fwrdeistref Sirol, ac mae ddwy filltir i'r gogledd o Fargod. Mae'n cynnig y cyfleusterau a ganlyn:

- Llwybrau cerdded;
- Llwybrau gyda chyfeirbwyntiau arnynt;
- Llwybrau beicio;
- Llyn, gan gynnwys cyfleusterau pysgota;
- Mannau picnic;

- Safle gwersylla;
- Canolfan ymwelwyr a chaffi.

Mae cyfleoedd i Barc Cwm Darran ehangu ei rôl fel atyniad ymwelwyr ac adnodd cymunedol, o fewn cylch gorchwyl cynllun Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Mae'n cael ei ystyried yn barod yn 'ganolfan ragoriaeth' ar gyfer darparu hyfforddiant amgylcheddol gyda'r Gwasanaeth Prawf. Gellid defnyddio'r agwedd hon o rôl y parc i gynyddu cyfalaf cymdeithasol trwy ddarparu hyfforddiant ac addysg, a datblygu prosiectau coetir cymunedol ar y cyd gyda'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Adfywio Cymunedol.

Os edrychir o safbwynt ymwelwyr, mae bwriad i wneud y defnydd gorau sydd modd o gyfleusterau'r parc, o ran y defnydd ohonynt a'r cynnig sydd ar gael. Bu gwaith creu gweledigaeth yn mynd ymlaen, gan geisio creu' dau barc mewn un' er mwyn ei wneud yn gyrchfan deniadol yn rhanbarthol:

- Ardal graidd - siop, microfusnesau wedi'u lleoli'n briodol, mwy o wybodaeth

## Gwaith Gweledigaeth ar gyfer Parc Cwm Darran



croesawu, estyn y safle gwersylla ac amrediad ehangach o lety, darparu mannau gwefru cerbydau trydan;

- Ardal gwlyptir - o gwmpas y maes parcio deheuol, parhau gyda'r ardal bysgota a chreu pyllau ychwanegol a mannau gwylltach i ychwanegu diddordeb;
- Posibilrwydd o ddefnyddio tir Cyfoeth Naturiol Cymru tu mewn i'r parc fel 'ardal ymylol', gan ddatblygu gwersylla gwyllt a gweithgareddau fel cerdded Nordig. Gellid cynorthwyo'r economi sylfaenol trwy gynorthwyo contractwyr lleol i ennill contractau cwympo coed, a sicrhau bod y pren yn cael ei ddefnyddio gan gwmnïau a sefydliadau lleol – efallai gellid defnyddio contractau cymdeithasol i gael lleoliadau i bobl mewn perthynas â hyn.

Mae gwaith hefyd yn mynd ymlaen o ran adfer Tomennydd Focrhiw, sydd i'r gogledd o'r parc. Gallai hynny gynorthwyo i hwyluso estyn y llwybr beic a darparu cysylltiad gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a thrwy hynny agor y safle i rwydwaith ehangach.

## Egwyddorion Datblygu

- Ymestyn y llwybr beicio, i ddarparu gwell cysylltiadau;
- Gwneud y defnydd gorau bosibl o'r cyfleusterau ymwelwyr, ar gyfer marchnad ehangach;
- Datblygu gwell amrediad o gyfleusterau, marchnata'r parc i gynulleidfa ehangach;
- Datblygu cyfalaf cymdeithasol trwy gyfrwng addysg, hyfforddiant a gweithio mewn partneriaeth gyda'r gymuned;
- Mwy o lety i ymwelwyr trwy ehangu'r safle gwersylla.

## E - 2 Parc Bryn Bach, Y Drenewydd a Chysylltiadau Perthnasol

### Parc Bryn Bach

Mae Parc Bryn Bach yn barc gweledig 340 erw sy'n estyn dros y ffin rhwng Blaenau Gwent a Chaerffili, ac yn un o'r ddau 'Borth Darganfod' Parc Rhanbarthol y Cymoedd sydd ar goridor yr A465. Mae'n cynnig amrediad o weithgareddau awyr agored a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau. Tu mewn iddo y mae:

- Llyn 36 erw;
- Canolfan ymwelwyr;
- Safle carafannau a gwersylla.

### Y Drenewydd

Mae'r Drenewydd yn enghraifft dda o bentref delfrydol o'r 19eg ganrif, wedi'i adeiladu ar gyfer gweithwyr yn y gwaith haearn cyfagos. Mae'r tair rhes o dai wedi'u rhestru ac maen nhw â'r dafarn a'r eglwys, sy'n parhau i weithredu, tu mewn i Ardal Gadwraeth y Drenewydd. Mae'r pentref yn agos at lwybr glan afon Cwm Rhymni a Ffwrnes Uchaf Rhymni, safle'r gwaith haearn cyntaf yng Nghwm Rhymni, sy'n parhau hyd heddiw fel heneb gofrestredig.

Mae'n parhau'n ddyhead i gael gwaith dehongli ar gyfer yr heneb gofrestredig, a byddai hynny'n tynnu sylw'n well at y safle yma, sy'n bwysig yn ddiwylliannol. Gan fod y Drenewydd a Ffwrnes Uchaf Rhymni'n agos at Barc Bryn Bach a rhannau uchaf llwybr glan afon Cwm Rhymni, mae cyfle i gyd-gysylltu'r elfennau hyn fel atyniadau i ymwelwyr o dan gynllun Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

# Parc Bryn Bach, Y Drenewydd, Cronfa Ddwr, Llwybrau Beicio



## Cronfa Ddwr y Drenewydd

Mae Cronfa Ddwr y Drenewydd, yr ochr arall o'r ffordd oddi wrth y pentref, yn gyrchfan leol boblogaidd ar gyfer gweithgareddau fel cerdded a physgota. Mae'n cael ei gwasanaethu gan Lwybr Beic presennol Cwm Rhymni. Byddai modd datblygu rôl y cyfleuster hwn trwy estyn y rhwydwaith llwybr beic i'w gysylltu gyda Pharc Bryn Bach. Gellir gweld yr estyniad posibl hwn yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.

## Egwyddorion Datblygu

- Cydlynu Parc Bryn Bach, y Drenewydd a Chronfa Ddwr y Drenewydd fel rhwydwaith o atyniadau gydag estyniad i'r llwybr beic a defnyddio'r hawliau tramwy sy'n bodoli'n barod i wella'r cysylltiadau rhyngddynt;
- Gwaith dehongli o ran Ffwrnes Uchaf Rhymni, gan ddarparu cysylltiad gyda threftadaeth yr ardal;
- Estyn cysylltiadau gydag atyniadau mewn rhannau eraill o'r ardal – Tramffordd Bryn Oer ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Parc Cwm Darran.

## E - 3 Y Ty Weindio, Tredegar Newydd

Cafodd y Ty Weindio yn Nhredegar Newydd ei ddatblygu ar dir lle gynt roedd Glofa Elliot ac mae'n cynnig lle arddangos helaeth, oriel a chyfleusterau arlwyo a lle swyddfa/cyfarfod. Mae'r amgueddfa'n ceisio bod yn beirianwaith ar gyfer adfywio economaidd lle mae'n debygol bydd y refeniw oddi wrth ymwelwyr yn cael yr effaith fwyaf. Mae awydd yn bodoli i ehangu apêl yr arddangosfeydd, er mwyn denu cynulleidfa o ardal ehangach.

Fe lwyddodd y Clwb 5 tan 9 o ran cynnig cymorth i fusnesau newydd sy'n dechrau, a bydd gwaith i'r dyfodol yn ceisio adeiladu ar hynny trwy ddefnyddio rhan o'r cyfleuster i ddatblygu gweithgaredd busnes. Yn ogystal, bydd Dwr Cymru'n defnyddio lle swyddfa yno dros dro wrth wneud gwelliannau i seilwaith yr AABC. Mae hyn yn gyfle i integreiddio twristiaeth, addysg a gweithgaredd economaidd yn ogystal â chynyddu'r rhyngweithio rhwng y meysydd hyn a rôl sefydliadau cyhoeddus fel darparwyr cyfleustodau, gan arwain at y posibilrwydd o rannu ac ehangu sgiliau ac ehangu cwmpas modelau busnes i'r dyfodol. Mae'r Cyngor yn dymuno defnyddio rhan o'r gofod sydd yma i ganiatáu i fusnesau newydd ddyfeisio a thyfu, ar sail diwylliant o rannu gwybodaeth a chydweithio, hynny wedi'i adeiladu ar lwyddiant y Clwb 5 tan 9 a Chanolfan Arloesi Menter (ICE) Cymru.

Bydd defnyddio'r gofod swyddfa yn y cyfleuster hwn yn cynyddu'r cyflenwad o ofod ar gael yn lleol ar gyfer busnes. Bydd hefyd yn ehangu ei sail fel ased gwerthfawr i'r gymuned, gan wasanaethu fel canolfan y gall y gymuned leol adeiladu rhwydweithiau ohoni, yn rhai cymdeithasol ac yn ymwneud â busnes.

## Egwyddorion Datblygu

- Gwneud y defnydd gorau posib o'r safle fel atyniad ymwelwyr e.e. lle ar gyfer arddangosfeydd;

## Gweledigaeth ar gyfer Glofa Markham




- Darparu cymorth i fusnesau lleol sy'n dechrau;
- Ehangu cyflenwad yr ardal o le ar gyfer busnes;
- Rôl fel canolbwynt i'r gymuned, a datblygu cyfalaf cymdeithasol trwy integreiddio gweithgaredd ymwelwyr, addysgol ac economaidd;
- Cysylltiadau gyda rhaglenni cyflogaeth Adfywio Cymunedol.

## E - 4 Glofa Markham

Mae'r safle hwn wedi bod yn wag ers cau'r lofa yng nghanol yr 1980au a chafodd ei ddynodi yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig fel parc gweledig newydd er mwyn sefydlu cydran leol allweddol o Barc Rhanbarthol y Cymoedd. Mae estyniad i Lwybr Beicio Dyffryn Sirhywi rhwng Llwyncelyn ac Argoed yn rhedeg trwy'r safle. Mae'r dewisiadau'n cynnwys defnyddio'r tir parc deniadol ar gyfer gweithgareddau hamdden fydd yn cynyddu'r amser i bobl ei dreulio yno trwy ehangu cynnig y safle i ymwelwyr, ac ymchwilio i'r

cyfleoedd ar gyfer datblygiad sy'n gallu cysylltu i mewn i'r economi leol.

Mae gwaith creu gweledigaeth wedi bod yn digwydd, i geisio gwneud y defnydd gorau o botensial y safle fel cyrchfan i ymwelwyr, ar sail ei nodweddion o goetir a glannau afon, ac i gyfrannu i'r economi leol. Heblaw am waith coedwigaeth yn rhan ddwyreiniol yr ardal, yr unig ymyrraeth hyd yma fu datblygu'r fynedfa i'r safle a'r llwybr beic. Mae'r cynigion yn cynnwys:

- Datblygu'r safle fel 'porth' i'r gogledd a'r dwyrain dros gyfnod estynedig, unwaith bydd y swyddogaeth wedi cael ei sefydlu, yn cynnwys:
    - Cysylltiadau gyda Phwll Penyfan a'r parc carafannau a'r ganolfan farchogaeth;
    - Estyniad i'r llwybr beic;
    - Creu cylchdaith o draciau a llwybrau, sy'n estyn i mewn i dir Cyfoeth Naturiol Cymru, ar gyfer defnydd fel marchogaeth ceffylau, gan adeiladu ar y mynediad sy'n cael ei gynnig gan y rhwydwaith presennol o lwybrau;
    - Rheoli coetir, gan ganiatáu ar gyfer gwersylla, a darparu cysylltiad gweledol rhwng y tomennydd a'r llwybrau beicio;
    - Siapio'r tomennydd a gwneud y defnydd gorau fo modd o dreftadaeth ddiwylliannol y safle ar gyfer dehongli cadarnhaol a gweithgareddau fel chwarae antur ar lefel isel.
- O amgylch yr ardal graidd, datblygu'r maes parcio fel canolbwynt, gan gynnwys
    - Posibilrwydd o gael canolfa ymwelwyr;
    - Pyllau pysgota;
    - Caffi bychan;
    - Gwybodaeth am y safle;
    - Gwerthu coed tân lleol;
    - Unedau byw-gweithio.

## Egwyddorion Datblygu

- Datblygu ac estyn y llwybrau presennol, i hwyluso amrediad ehangach o weithgareddau a darparu cysylltiadau gyda chyfleusterau ychwanegol;
- Datblygu swyddogaeth y safle i ehangu'r apêl i ymwelwyr;
- Arallgyfeirio'r economi leol i fathau priodol o ddefnyddio, gyda'u canolfan yn y parc;
- Gwneud gymaint o ddefnydd ag y bo modd o dreftadaeth ddiwydiannol a diwylliannol yr ardal.

## E - 5 Tir Comin Gelligaer a Merthyr

Mae Comin Gelligaer yn ehangder o weundir agored rhwng Cymoedd Taf a Rhymni, yn estyn dros y ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Caerffili a Merthyr, a thros lawer o Gwm Rhymni Uchaf i'r gorllewin o'r A469. Mae wedi'i ddynodi gan Cadw fel Tirwedd Hanesyddol.

Ar ochr Caerffili, mae tir uchaf y Comin yn codi hyd at 470m ym Mynydd Fochriw, a gyda llethr yn rhedeg i lawr tuag at Nant Bargod Rhymni. Mae'r dirwedd yn amrywiol o ran ei ffurf a'i chynnwys archeolegol a hanesyddol.

## Twristiaeth

O ran twristiaeth, gallai'r Comin fod yn rhan annatod o gynnig AABC. Mae nodweddion y dirwedd yn cynyddu'r potensial ar gyfer:

- Defnyddio cynnwys archeolegol a hanesyddol yr ardal;
- Darparu cysylltiad gyda chyfleusterau eraill tu mewn i'r AABC e.e. Parc Cwm Darran; Y Drenewydd yn ogystal â rhai y tu allan – gan fod y Comin yn agos at y Parc Cenedlaethol, gallai felly ddenu ymwelwyr tua'r de;
- Gwneud nodweddion fel Pwll Rhaslas mor ddeniadol ag y bo modd ar gyfer twristiaeth a hamdden;
- Darparu llety a'r sector lletygarwch mewn aneddiadau fel Rhymni, Fochriw a Deri – bydd hyn yn dibynnu ar greu digon o alw yn y lle cyntaf.

## Datblygiad Cymunedol

Mae'r comin yn bwysig o ran ei werth economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol

## Tir Comin Gelligaer



i'r cymunedau oddi amgylch iddo. Fodd bynnag, mae bygythiad i'r dirwedd oddi wrth ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn cynnwys tipio sbwriel yn anghyfreithlon, sbwriel yn gyffredinol, cerbydau'n cael eu gyrru oddi ar y ffyrdd a difrod i'r amgylchedd. Mae prosiect peilot Tirwedd y Comin (Common Landscape) yn cael ei lansio. Bydd hwnnw'n cael ei arwain gan Gymdeithas y Cominwyr, y ddau awdurdod lleol ac eraill er mwyn gweithio gyda'r gymuned leol ac adfer, cynnal ac amddiffyn y Comin. Bydd hyn yn sicrhau bod modd trosglwyddo gofal amdano ymlaen i genedlaethau'r dyfodol.

*Mae Tirwedd y Digidol* yn ceisio gweithio gyda chymunedau lleol i sefydlu canolfan ddigidol rithwir ar gyfer tirweddau Caerffili a Blaenau Gwent, fydd yn darparu llwyfan gwybodaeth ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Bydd y cynlluniau hyn, yng nghyswllt y Comin a thirweddau eraill, yn:

- Galluogi datblygu sgiliau newydd mewn perthynas â stiwardiaeth o'r dirwedd a thechnoleg ddigidol, gan gysylltu gyda rhaglenni Adfywio Cymunedol;
- Hwyluso cydlyniad a datblygiad cymunedol;
- Darparu llwyfan gwybodaeth i drigolion lleol, lle gallant ymgysylltu gydag adnoddau naturiol lleol;
- Defnyddio technoleg yn fwy effeithiol i dynnu sylw at nodweddion y Comin, a thirweddau lleol pwysig eraill, i bobl allai ddewis ymweld.

## E - 6 Parc Coetir Bargod

Parc Coetir Bargod is the County Borough's newest country park, created on land formerly occupied by Gilfach, Bargoed and Britannia Collieries, and provides a route along the Rhymney River in attractive surroundings which can be accessed from 11 different gateways.

Mae llwybrau Teithio Llesol newydd yn cael eu cynllunio, fydd yn gwella cysylltiadau rhwng y parc a'r cymunedau o gwmpas a ganlyn:

- Pengam;
- Trelyn;
- Gilfach;
- Aberbargod

Rhagwelir y bydd hyn yn gwella mynediad i'r parc fel atyniad lleol i ymwelwyr, a dod â budd o ran iechyd a llesianthealth and well-being.

## E - 7 Bargoed Park

Parc Bargod yw'r parc mwyaf yn y fwrdeistref sirol gan ymestyn dros 19 ha ac mae'n cynnwys nifer o gyfleusterau:

- Gerddi ffurfiol;
- Lle chwarae i blant;
- Lle amlddefnydd ar gyfer chwaraeon;
- Ardal sglefr fyrddio;
- Meysydd chwarae pêl-droed a rygbi.

Bydd y Cyngor yn chwilio am gyfleoedd i wneud y defnydd gorau bosibl o rôl y parc o ran cynaliadwyedd y dref, yn cynnwys:

- Sicrhau bod cyfleusterau'n cael gymaint ag y bo modd o ymwelwyr;

## Parc Coetir Bargod




- Atgyfnerthu bywiogrwydd canol y dref, a chynnal cysylltiadau.

## F - Cefnogi cynigion ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a budd cymunedol trwy seilwaith cyfleustodau

Mae AABC mewn sefyllfa dda i ddod â budd strwythurol trwy gyfrwng cynlluniau ynni. Er bod newid hinsawdd yn gosod her, mae hefyd yn dod â chyfleoedd. Mae Llywodraeth Cymru'n manteisio ar gyfle'r newid i economi carbon isel trwy *Bolisi Cynllunio Cymru* a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae wedi datgan ymrwymiad i ddarparu'r deilliannau a ganlyn, yn *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel:*

- Lleihau faint o ynni rydym yn ei ddefnyddio;
- Lleihau ein dibyniaeth ar ynni wedi'i gynhyrchu o danwydd ffosil;
- Gweithredu i reoli'r newid i economi carbon isel;
- Defnyddio'r gwasanaethau sy'n bodoli'n

barod, wedi'u darparu gan Groundwork Cymru, o ran effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi – cysylltu gyda chymunedau ac ysgolion i wneud y defnydd gorau o'r ymwybyddiaeth o gynhesu byd eang, ailgylchu a chynlluniau gwastraff bwyd.

Gall ynni adnewyddadwy fod yn ffordd o ateb rhai o'r amcanion hyn, yn ogystal â modd o adeiladu cydnerthedd yr economi i amgylchiadau, darparu twf glân a chyfrannu at well iechyd. Felly bydd cynlluniau ynni addas yn cael eu cefnogi, mewn lleoliadau priodol.

## F - 1 I'r Gogledd o'r A465

Mae'r tir sy'n union i'r gogledd o'r A465 yn ucheldir tir glas. Mae'n agos at y ffin gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac wedi'i leoli mewn dynodiad Ardal Tirwedd Arbennig sydd wedi'i ddangos yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. Mae rhan o'r safle mewn dynodiad Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur.

O ystyried natur ucheldir y safle hwn a'i leoliad i'r gogledd o'r A465, gallai'r ardal hon ddarparu lle i gynllun cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Ond byddai angen gwaith i ganfod pa mor ymarferol fyddai hynny a'r effaith ar yr amgylchedd, yn enwedig o ran yr effaith weledol ar y Comin ac ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Gallai'r ynni a gynhyrchir ar y safle hwn gael ei fwydo yn ôl i'r grid, felly byddai gan y cynnig fudd economaidd yn ogystal ag ar gyfer cynaladwyedd, a gallai efallai hefyd ddod â budd i'r gymuned.

Mae cyfle posibl i ddatblygu cynllun ar y cyd gyda thir sydd wrth ei ymyl ym Mlaenau Gwent. Byddai'n cydweddu gyda chynlluniau sy'n gweithredu'n barod ar hyd y coridor hwn ac yn ffurfio rhan o 'Llain Ynni' Blaenau'r Cymoedd, a thrwy hynny gynyddu cynaliadwyedd ar goridor ehangach yr A465.

## Egwyddorion Datblygu

- Creu cynllun cynhyrchu ynni cynaliadwy;
- Llai o ddibyniaeth ar ffurfiau o ynni nad ydynt yn lleol nac yn gynaliadwy;
- Manteision economaidd o gyflenwi ynni i'r grid;
- Budd cymunedol yn deillio o hyn i grwpiau cymunedol lleol;
- Posibilrwydd o greu swyddi lleol.

Gallai uwchraddio'r seilwaith cynhyrchu ynni a chynlluniau cyfleustodau cyhoeddus ddod â budd i'r gymuned. Byddai hynny nid yn unig o ran gwella'r ddarpariaeth i gartrefi pobl ond hefyd trwy fod mwy o ryngweithio cymunedol gyda darparwyr cyfleustodau, datblygu cyfalaf cymdeithasol ac estyn a chreu rhwydweithiau cymunedol, cyfleoedd hyfforddi a sgiliau.

Mae hefyd fudd economaidd, gan fod y cynlluniau hynny'n gweithredu yn y cyswllt o ryw raddau o berchnogaeth gymunedol. Mae enghreifftiau mewn llefydd eraill o ddarparwyr cyfleustodau a chwmnïau ynni adnewyddadwy yn buddsoddi mewn datblygiad cymunedol gyda chymorth cronfa gymunedol sefydlwyd i'r union ddiben hynny. Lle bydd y cyrff hyn yn cymryd rhan mewn

## Datblygiadau Fferm Wynt gweithredol ac arfaethedig ar hyd Coridor yr A465



datblygu cynigion mewn ardal benodol, dylid eu hannog i:

- Ymgysylltu gyda'r gymuned i sefydlu beth yw ei hanghenion a'i dyheadau;
- Darparu cyllid er budd y gymuned honno fel rhan o gronfa gymunedol, efallai fel arian cyfatebol ar y cyd gyda chynlluniau eraill;
- Caniatáu i gynrychiolwyr cymunedol gymryd yr arweiniad o ran sut i wario'r arian hwnnw.

## F - 2 Cynllun Ynni Adnewyddol Markham

Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth gyda Chyngor Cymuned Argoed ac Adfywio Cymru, yn ymchwilio i gynllun cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi'i ganolbwyntio ar y gymuned, ar dir ar Lofa Markham. Maen nhw hefyd yn ystyried y dewisiadau ar gyfer cynhyrchu gydag ynni dwr, haul a gwynt. Gwnaethpwyd y gwaith cwmpasu dechreuol, a gwelwyd o hynny y gallai'r fath gynllun gynhyrchu digon o drydan i 1,500 o gartrefi.

### Egwyddorion Datblygu

- Creu cynllun cynhyrchu ynni cynaliadwy;
- Cynyddu cydnerthedd y gymuned i amgylchiadau;
- Integreiddio gyda datblygiad y parc gwledig yng Nglofa Markham;
- Cynyddu'r amrediad posibl o fathau o ddefnydd economaidd gwledig i gael eu lleoli yn y parc gwledig posibl;
- Darparu cyfleoedd ar gyfer swyddi a hyfforddiant trwy gyfrwng budd cymunedol;
- Cysylltu gyda chynlluniau a phartneriaid tebyg er mwyn gwella ymwybyddiaeth.

## F - 3 Cydnerthedd Dwr Cymunedau - Rhymni i Fargod

Mae Dwr Cymru'n cynhyrchu cynlluniau ar gyfer cynyddu'r cydnerthedd dwr yn AABC. Bydd gwaith i wella'r seilwaith yn dechrau yn gynnar yn 2020. Bydd hyn hefyd yn golygu ymgysylltu lleol i sicrhau bod y cysyniad o gydnerthedd dwr yn cael eu sefydlu yn y gymuned leol. Bydd hyn yn golygu:

- Ymgysylltu trwy'r rhwydweithiau cymunedol presennol e.e. Rhwydwaith Rhieni, Dechrau'n Deg, Adfywio Cymunedol;
- Lledaenu gwybodaeth ac arfer da trwy ysgolion lleol, grwpiau cymunedol;
- Sefydlu cysylltiadau gyda rhwydweithiau landlordiaid lleol;
- Cynyddu cydnerthedd trwy gyfrwng portffolio tai'r Cyngor (monitro defnydd a mesuryddion defnyddio llai yn eiddo'r Cyngor, lle bo hynny'n briodol ac yn dod â budd).

### Egwyddorion

- Gosod egwyddorion cynaliadwyedd yn elfen hanfodol yn y gymuned;
- Sicrhau bod cymdeithasau rhanddeiliaid yn gweithredu mewn ffordd sydd wedi'i chydgordio;
- Cynyddu datblygiad a hyder cymunedol;
- Gwelliannau ffisegol i seilwaith cyfleustodau.

## G - Cefnogi datblygu ac arallgyfeirio tai mewn lleoliadau cynaliadwy

Er gwaethaf llwyddiant Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn darparu tai newydd mewn rhannau eraill o'r Fwrdeistref Sirol, nid yw hynny wedi digwydd yn AABC. Yma, er bod rywfaint o ddatblygiad ar raddfa fechan wedi digwydd, mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Lleol yn parhau heb eu datblygu, beth bynnag yw sefyllfa cynaliadwyedd eu lleoliadau.

Felly mae angen am ddatblygiad tai newydd mewn lleoliad cynaliadwy er mwyn cynyddu swm ac ansawdd y stoc tai, a chefnogi rôl a swyddogaeth aneddiadau. Byddai hynny ar yr un pryd â'r gwelliannau economaidd a ragwelir o ganlyniad i'r Fargen Ddinesig, y Metro a dyheadau'r cyngor ar gyfer adfywio.

Mae angen modelau newydd o ddarparu tai, i ddod â datblygiad ymlaen, a bydd y rheiny'n cynnwys

**Hunan adeiladu**: Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau ar gynllun hunan adeiladu gyda'r nod o annog pobl sy'n prynu am y tro cyntaf i adeiladu eu tai eu hunain. Trwy gyfrwng Banc Datblygu Cymru, bydd Llywodraeth Cymru'n cynnig benthyciadau i hunan adeiladwyr i'w cynorthwyo i adeiladu eu cartrefi eu hunain. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru'n sefydlu data-bas o safleoedd sy'n cael eu hyrwyddo ar gyfer datblygiadau hunan adeiladu.

**Safleoedd Segur**: Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau trefn o fenthyciadau i gynorthwyo gyda safleoedd sydd wedi mynd yn segur a ddim yn cael eu datblygu, am wahanol resymau, er mwyn eu cael i symud ymlaen i ddatblygu.

**Adeiladu tai cyngor ar raddfa fechan**: Trwy gyfrwng Safon Ansawdd Tai Cymru, gall y cyngor ddod â nifer o safleoedd ymlaen ar raddfa fechan ar gyfer datblygu tai. Wrth wneud hynny, bydd y cyngor yn ceisio defnyddio gymaint ag y bo modd ar economi sylfaenol yr ardal, fydd yn sicrhau prynu nwyddau a gwasanaethau'n lleol a bod y cynlluniau'n cynorthwyo i ddatblygu setiau priodol o sgiliau yn y boblogaeth.

Bydd y dewisiadau hyn yn dod â thai newydd ymlaen, fydd yn cynyddu'r amrediad o ddewisiadau ar gael yn ardal y Prif Gynllun. Fodd bynnag, ni fydd y rhain yn ddigon i ateb y sefyllfa tai yn gyfan gwbl. O ganlyniad, bydd y cyngor yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru i ddarparu peirianweithiau i gymell datblygiad tai yn ardal y Prif Gynllun, yn ogystal â choridor ehangach yr A465. Mae hynny er mwyn sicrhau datblygu lefel ac amrediad digonol o dai i gynnal y cymunedau presennol.

### G -1 Llwyfandir Aberbargod

Mae'r llwyfandir yn ganlyniad i adfer hen domen Glofa Bargod, ac mae ar yr ochr Aberbargod o Gwm Rhymni. Mae wedi'i ddyrannu ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig, er nad yw wedi cael ei ddatblygu, ac mae ym meddiant y Cyngor.

## Llwyfandir Aberbargod ac Ysgol Bedwellte




Byddai ailddatblygu'r llwyfandir yn defnyddio safle tir llwyd pwysig ac yn gyfle i gael mwy o amrywiaeth yn stoc tai'r ardal. Fodd bynnag, mae'n gwestiwn pa mor hyfyw yw'r safle ar gyfer datblygiad preswyl.

Mae'r safle'n agos at ganolfan gymdogaeth, sef Aberbargod, ac wrth ymyl Parc Coetir Bargod, un o barciau gwledig y cyngor, sy'n darparu lleoliad cynaliadwy gydag amgylchedd deniadol yn gefndir.

Mae adolygiad yn mynd ymlaen nawr o'r ddarpariaeth chweched dosbarth, un rhyw a dros ben ar draws y Fwrdeistref Sirol, gyda phosibilrwydd y gellid defnyddio rhan o'r safle ar gyfer darpariaeth addysg newydd i wasanaethu'r rhan hon o'r Fwrdeistref Sirol. Byddai hynny'n hwyluso datblygu cynllun defnydd cymysg i'r Llwyfandir a galluogi datblygu tai ar weddill y tir. Byddai llunio cynllun priodol yn galluogi cynllun o'r fath i gyrraedd ei botensial llawn o ran cynaliadwyedd.

## Egwyddorion Datblygu

- Cynllun cynaliadwy defnydd cymysg sy'n defnyddio lleoliad y safle ar Angel Way;
- Rywfaint o ddarpariaeth ar gyfer datblygu tai, darparu datblygiad o adeiladu newydd yn yr ardal ac ychwanegu amrywiaeth a dewis i'r stoc tai presennol, yn agos at gyfleusterau cyflogaeth sy'n bodoli'n barod;
- Datblygu coleg addysg bellach newydd i wasanaethu Cwm Rhymni Uchaf;
- Darparu mynediad i Barc Coetir Bargod trwy estyn y llwybr beic.

## G - 2 Ysgol Bedwellte

Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn 2019 ar gyfer datblygiad preswyl (55 uned) ar safle'r hen Ysgol Bedwellte ac mae hynny'n mynd ymlaen. Bydd datblygu'r safle hwn yn golygu cael amrywiaeth yn y stoc tai yn ardal Aberbargod, mewn lleoliad cynaliadwy yn agos at ganol tref Aberbargod, yr A4049 a defnydd cyflogaeth ar Stad Ddiwydiannol Bowen ac Angel Lane. Ers hynny, mae'r Cabinet wedi cymeradwyo rhyddhau tir yn union i'r de, ar gyfer ail gam o ddatblygiad.

## Egwyddorion Datblygu

- Amrywio'r stoc tai yn yr ardal leol, ychwanegu amrywiaeth a dewis i'r farchnad dai leol;
- Mynediad rhwydd o ran cyfleusterau lleol;
- Defnyddio tir llwyd sy'n wag.

## G - 3 Cynllun Grant Cartrefi Gwag

Yn dilyn llwyddiant y model a weithredwyd yn Rhondda Cynon Taf, darparodd Llywodraeth Cymru £10 miliwn i ariannu Cynllun Grant Cartrefi Gwag ar draws ardal Tasglu'r Cymoedd. Mae'n cynnig arian i brynwyr ar gyfer adnewyddu cartrefi gwag a dod â hwy yn ôl i ddefnydd buddiol. Dim ond ar gyfer defnyddio tai fel perchen breswylwyr y mae modd gwneud cais am y grant yma - nid yw ar gael i adeiladwyr neu landlordiaid ar gyfer llety i gael ei rentu allan. Bydd y cynllun yn weithredol mewn dau gyfnod amser:

- Dyma'r amodau ar gyfer y cyfnod cyntaf:
  - Byddai angen i gartrefi fod yn wag am chwe mis cynt (y chwe mis yn union cyn cymeradwyo'r grant);
  - Dim ond unwaith y caiff perchnogion eiddo wneud cais, er mwyn atal landlordiaid ac adeiladwyr rhag defnyddio'r cynllun;
  - Y grant uchaf ar gael yw £20,000.
- Bydd yr ail gyfnod cyfnod yn golygu gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu fframweithiau i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol, gan gael cysylltiadau gyda:
  - Sgiliau a phrentisiaethau;
  - Cadwyni cyflenwi lleol;
  - Yr Economi Sylfaenol.

## Egwyddorion

- Posibilrwydd o ostyngiad mewn cartrefi gwag;
- Cynnydd yn amrywiaeth y stoc tai;
- Datblygu sgiliau;

- Cryfhau cadwyni cyflenwi lleol trwy ddefnyddio cwmnïau lleol.

## H - Darparu lefel addas o gyfleusterau cymunedol, hamdden ac addysg, gan alinio â mentrau cenedlaethol a lleol gan gynnwys Ysgolion yr 21ain Ganrif a Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili lle bo hynny'n berthnasol, a sefydlu Rhwydweithiau Lles Integredig er mwyn cysylltu cryfderau ac asedau cymunedau.

Mae darpariaeth a lleoliad cyfleusterau cymunedol yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd aneddiadau a llesiant eu pobl. Mae'r cyfleusterau newydd sydd wedi agor ers dechrau cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol yn 2006 yn cynnwys:

- Llyfrgell a Chanolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Bargod (Capel Hanbury);
- Canolfan Adnoddau Hafod Deg;
- Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhymni;
- Ysgol Idris Davies, Abertyswg.

Er bod cyfyngiadau ar adnoddau cyhoeddus yn effeithio ar y ddarpariaeth o'r fath gyfleusterau, mae hyn yn gyfle i gael modelau newydd o ddarparu. Er enghraifft, gall rhesymoli a rhannu cyfleusterau fel 'hybiau' aml-bwrpas ddod â manteision i'r gymuned, yn ogystal â darparu cyfleoedd i reoli a darparu adnoddau i gyfleusterau mewn ffordd fwy cost effeithiol. Gall hyn gael effaith gadarnhaol o ran cyfalaf cymdeithasol, gan ddod â chyfleoedd i rwydweithio, rhannu gwybodaeth a datblygu sgiliau trosglwyddadwy sy'n amhrisiadwy mewn cyswllt cymdeithasol ac economaidd modern.

### H - 1 Ysgolion yr 21ain Ganrif

Mae Rhaglen Ysgolion a Cholegau yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru yn rhaglen fawr strategol o fuddsoddiad cyfalaf tymor hir sy'n cefnogi prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr, gyda'r nod o wella adeiladau ysgolion i ateb anghenion addysgol a chymunedol modern.

### Y nodau allweddol yw:

- Lleihau nifer yr ysgolion sydd mewn cyflwr gwael;
- Sicrhau bod ysgolion o'r maint iawn yn y lleoliadau iawn;
- Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystâd addysgol ar gyfer ysgolion a'r gymuned ehangach.

Cafodd Ysgol Idris Davies yn Abertyswg ei datblygu o dan Fand A o'r rhaglen, i gymryd lle Ysgolion Cynradd Abertyswg a Phontlotyn, ar dir tu mewn i safle presennol Ysgol Gyfun Rhymni. Yn ogystal ag ysgol drwodd i ddisgyblion rhwng 3 a 18 oed, mae'n darparu ar gyfer meithrinfa, uned Dechrau'n Deg a chanolfan plant integredig sy'n cynnig darpariaeth ar ôl oriau ysgol a gofal cofleidiol. Mae Band B o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn rhedeg rhwng 2019 a 2026 ac mae cynigion wedi cael eu datblygu. Fodd bynnag, mae'r rhain yn parhau'n gynigion ar hyn o bryd, yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo achos busnes. Yn ogystal, bydd ymgynghori gyda rhanddeiliaid yn rhan

## Lleoliadau presennol Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf, aYsgol Gynradd Brynawel ac Ysgol y Lawnt




allweddol o'r broses. Bydd cynigion ar gyfer addysg gynradd yn dibynnu ar yr adolygiad o addysg uwchradd sy'n mynd ymlaen nawr. Mae'r cynigion Band B yn Rhymni'n cynnwys:

- Adeiladu ysgol newydd yn lle'r Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf bresennol;
- Adleoli disgyblion Ysgol Gynradd Brynawel i Ysgol Gynradd Rhymni ac Ysgol Idris Davies;
- Ailwampio safle ysgol ar gyfer adleoli Ysgol y Lawnt.

## Mae'r cynigion Band B ym Margod yn cynnwys:

- Cyfuno Ysgolion Cynradd y Parc a Gilfach Fargod mewn ysgol wedi'i hadeiladu o'r newydd;
- Ailwampio Ysgol Gynradd y Parc i ddarparu ar gyfer adleoli Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod.

Mae disgwyl i hyn ddod â'r manteision a ganlyn:

- Targedu ardaloedd gydag amddifadedd cymdeithasol uchel;

## Lleoliadau presennol Ysgol Gynradd y Parc, Ysgol Gynradd Gilfach Fargoed ac Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod




- Creu ysgolion sy'n ffit ar gyfer y pwrpas ac yn effeithlon gydag ynni;
- Gostyngiad sylweddol mewn llefydd gwag;
- Amcan y bydd arbediad o ran y costau cynnal sydd wedi cronni yn aros am sylw;
- Cynnydd yn y cyfleoedd i ddefnydd cymunedol a darpariaeth gofal plant ar y safle;
- Ehangu addysg cyfrwng Cymraeg.

## H - 2 Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhymni a Chanolfan Adnoddau Hafod Deg

Mae'r Ganolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig ar gyfer rhan ogleddol y Fwrdeistref Sirol yn dod â nifer o wahanol swyddogaethau iechyd cymunedol at ei gilydd mewn ffordd integredig, yn cynnwys:

- Dwy feddygfa meddygon teulu, sy'n cydweddu gyda'r ddarpariaeth sy'n parhau yn Nhredegar Newydd a'r Deri;
- Deintyddfa;

- Gwasanaethau Optometreg;
- Cyfleusterau gofal dydd gwasanaethau cymdeithasol;
- Cyfleusterau i gleifion mewnol;
- Canolfan i staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol sy'n darparu amrediad o wasanaethau ar draws gogledd y Fwrdeistref Sirol.

Mae Canolfan Adnoddau Hafod Deg yn darparu amrediad o wasanaethau cefnogi i bobl yn yr ardal leol, yn cynnwys:

- Cyngor Ar Bopeth;
- Sefydliadau iechyd meddwl;
- Undeb credyd;
- Cyngor maeth a diet;
- Canolfan ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol.

Mae integreiddio'r ddarpariaeth o wasanaethau, i weithio o gyfleusterau fel rhain yn cynyddu gymaint ag y bo modd ar allu'r adnoddau sector cyhoeddus i gael effaith gadarnhaol yn y gymuned. Fodd bynnag, mae angen i'r ffordd hon o weithredu sicrhau darparu gwasanaethau i'r gymuned gyfan. Felly bydd y Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau allweddol fel y Bwrdd Iechyd lleol, y 'trydydd sector' ac eraill i sicrhau bod gwasanaethau a llesiant sydd wedi'u seilio yn y gymuned yn gallu parhau i gael eu darparu mewn ffordd gynaliadwy a chyd-drefnus.

## H - 3 Rhwydweithiau Llesiant Integredig

Mae gan Lywodraeth Cymru Gronfa Drawsnewid o £100m ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, gyda'r nod o yrru ymlaen integreiddio a'i weledigaeth tymor hir o 'agwedd system gyfan' tuag at iechyd a gofal cymdeithasol, yn canolbwyntio ar iechyd a llesiant ac ar osgoi salwch. I gyd-fynd gyda hynny mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent yn cefnogi Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, ar y cyd gyda'r Cyngor a phartneriaid eraill, i ddatblygu a darparu'r cysyniad o Rwydweithiau Llesiant Integredig.

Mae Rhwydweithiau Llesiant Integredig yn fodelau wedi'u seilio ar lefydd, ar gyfer gweithio mewn ffordd fwy cydweithiol ac effeithiol, wedi'i hintegreiddio, i gefnogi a chynnal llesiant cymunedol. Yn ei hanfod, mae hynny'n golygu cysylltu a chyd-drefnu mewn ffordd effeithiol y gwahanol asedau sy'n cyfrannu at lesiant yn y lleoliad penodol hwnnw.

### Mae pedair elfen i ddatblygiad Rwydweithiau Llesiant Integredig:

- Cydweithio ar sail lle;
- 'Hybiau' wedi'u selio ar y gymuned, yn cysylltu gyda'i gilydd;
- Pobl sy'n darparu gwasanaethau a chefnogaeth;
- Gwybodaeth llesiant sy'n hawdd ei chael.

Ar y dechrau, bydd datblygiadau Rwydweithiau Llesiant Integredig yn y Fwrdeistref Sirol yn canolbwyntio ar yr ardal a wasanaethir gan Rwydwaith Gofal Cymdogaeth Gogledd Caerffili, sydd â llawer ohoni tu mewn i'r AABC. Mae gwaith mapio dechreuol wedi digwydd ar gyfer rhan o'r ardal, ac mae bwriad i estyn hyn allan, fel

## Rhwydweithiau Lles Integredig



rhan o raglen o ymgysylltu cymunedol, i gynorthwyo defnyddwyr i weld beth yw'r rhwydweithiau o gyfleusterau sy'n bodoli'n barod.

- Bydd y ffordd sy'n cael ei hargymell o ddarparu Rhwydweithiau Llesiant Integredig yn cyfrannu at ddarparu Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r ffordd hon o weithredu'n cynnwys:
  - Hybiau iechyd a gofal cymdeithasol e.e. Meddygfeydd meddygon teulu;
  - Hybiau awdurdod lleol – llyfrgelloedd, Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid, darparu cyngor tai;
  - Hybiau cymunedol – lle bydd pobl, grwpiau cymunedol a gweithgareddau hamdden yn rhannu'r lle gyda'i gilydd;
- Cytuno ar rôl y cyrff arweiniol, yn cynnwys y Cyngor, Bwrdd Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymdeithasau Tai, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) ac eraill;
- Adolygu rolau sy'n 'cysylltu' er mwyn sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau ac ateb bylchau a welir – y rolau 'cysylltu' yw pobl a chyrff sy'n darparu cysylltiadau rhwng pobl, pobl broffesiynol a gwahanol rannau o'r rhwydwaith llesiant.

## I - Sicrhau bod hygyrchedd i bawb wedi'i ymgorffori ym mhob cynllun gwella

Mae mynediad yn amcan sy'n torri ar draws y terfynau ac yn berthnasol i gynlluniau tu mewn i AABC. Dylai pob cynnig datblygu gadw at yr egwyddorion o ddyluniad cynhwysol, er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n ateb anghenion mynediad y rhai sy'n byw yn AABC, yn gweithio yno ac yn ymweld ag yno, yn cynnwys pobl gydag amhariadau ar eu symudedd a'u synhwyrau ac anawsterau dysgu.

## J - Sicrhau bod pob cymuned ym Mlaenau'r Cymoedd yn gallu ymgysylltu ac elwa o'r Prif Gynllun

O ganlyniad i'r Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru 2019, cytunwyd y bydd blaenoriaeth ar ganolbwyntio ar ffordd newydd o weithio mewn nifer o'r cymunedau amddifad yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae angen newid sylfaenol yn y ffordd o ymdrin â gwasanaethau cyhoeddus fel ei gilydd ac o'u darparu, i ymateb i'r anghenion amlochrog yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y Fwrdeistref Sirol. Dylai fod mwy o bwyslais ar lywodraeth leol yn gweithio gyda chymunedau, i fod yr un sy'n galluogi, yn hytrach na bod yn cyflawni ar eu cyfer.

Mae angen mwy o bwyslais ar ganfod beth yw asedau'r cymunedau. Wrth ymarferwyr ddechrau canolbwyntio ar beth sydd gan gymunedau, yn hytrach na beth maent yn brin ohono, bydd cynnydd yn effeithiolrwydd cymuned i ymateb i'w hanghenion ei hunan, ac yn ei gallu i ddenu cefnogaeth allanol i mewn. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau wedi'u dylunio i 'lenwi bylchau' ac 'ateb problemau', gan greu dibyniaeth a mynd â grym allan o ddwylo unigolion, sy'n dod yn bobl oddefol yn derbyn gwasanaethau.

Bydd agwedd newydd y Cyngor tuag at ddarparu gwasanaethau'n rhoi golwg wahanol ar adeiladu pontydd gyda chymunedau, gan gymell a defnyddio asedau unigolion a'r gymuned a galluogi proses o gyd-gynhyrchu, gydag aelodau o'r gymuned yn gweithredu'n bendant yn eu bywydau eu hunain a bywydau eu teuluoedd. Ar gyfer cyd-gynhyrchu, mae angen i ddefnyddwyr gwasanaethau gael eu gweld fel arbenigwyr ar eu hamgylchiadau eu hunain ac fel pobl sy'n gallu gwneud penderfyniadau, tra bo darparwyr gwasanaethau'n symud i ffwrdd oddi wrth fod yn darparu atebion ac yn hytrach yn hwyluso. Bydd hyn yn golygu bod angen datblygu perthnasau newydd gyda'r bobl broffesiynol yn y rheng flaen, a mabwysiadu rôl alluogi.

Bydd hyn yn golygu bod angen agwedd newydd tuag at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, sy'n ceisio cyd-drefnu gwasanaethau'n well er mwyn cael yr effaith fwyaf. Y bwriad yn hyn yw canolbwyntio ar sail llefydd, gydag adolygiad o wasanaethau cyhoeddus i asesu pa mor dda maen nhw'n ateb y deilliannau mae preswylwyr eu hangen, a sut gallant wella eu heffaith a gwerth am arian. Mae rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda chefnogaeth ei bartneriaid, yn allweddol ar gyfer y ffordd hon o weithio, ac mae'n gyfle i ddatblygu hyn ar draws nifer o rannau allweddol ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Mae gan y prosiectau sydd wedi'u henwi yn AABC y potensial i ddod â budd sy'n estyn ymhell ar gyfer preswylwyr, yn cynnwys y bobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn ardal y Prif Gynllun a'r Fwrdeistref Sirol ehangach.

# Adran 7: Cyflawni a Rhoi Newid ar Waith

Mae'r tabl isod yn gosod y prosiectau a ddynodwyd yn Adran 6 yr Adroddiad, ynghyd â'r canlyniadau disgwyliedig y bydd y prosiect yn eu cyflwyno a sut bydd y cynigion hyn yn mynd i'r afael ag amcanion Sail i Lwyddiant. Mae'r tabl yn nodi costau mynegol pob cynllun ac yn amlygu unrhyw gyllid sydd wedi'i sicrhau hyd yma. Dylid nodi bod nifer fawr o'r prosiectau hyn yn eu dyddiad cynnar ac, felly, gellir ond amcangyfrif yr allbynnau a'r costau.

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol | Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio | Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial |
|---|---|---|---|---|---|
| **A - Ategu, ac integreiddio â mentrau cyfagos fel Parth Menter Glyn Ebwy er mwyn datblygu swyddogaeth cyflogaeth strategol ar gyfer Rhymni, gan ei sefydlu fel porth i'r Cymoedd** | A - 1 Capital Valley, Rhymni | Ailddatblygu eiddo dosbarth B modern, addas i'r diben | • Creu Parth Menter Blaenau'r Cymoedd (ehangu Parth Menter Glyn Ebwy)<br>• Datblygu tir heb ei ddefnyddio/eiddo hŷn ar gyfer defnydd cyflogaeth;<br>• Cyflymu twf busnes yn ardal Rhymni;<br>• Creu'r adeiladau ffisegol sydd eu hangen i dyfu sectorau sy'n cydweddu gyda'r Parth Menter;<br>• Potensial i fanteisio ar welliannau Metro a mwy o gysylltedd gyda marchnadoedd allanol, trwy fodolaeth pen rheilffordd;<br>• Lleihau cymudo trwy ddarparu swyddi lleol;<br>• Cynnwys cymalau cymdeithasol mewn contractau sector cyhoeddus perthnasol i annog budd cymunedol lleol | • SP1<br>• SP3-5<br>• SP9-11<br>• SB1-4<br>• CPP2-5 | Cyllid a sicrhawyd: dim hyd yma, disgwylir y daw o Dasglu'r Cymoedd neu CDPRhC<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu<br><br>Deialog ar droed rhwng y Cyngor, Llywodraeth Cymru a pherchennog y safle mewn perthynas â buddsoddiad posib |

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol | Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio | Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial |
|---|---|---|---|---|---|
| **A - Ategu, ac integreiddio â mentrau cyfagos fel Parth Menter Glyn Ebwy (PM) er mwyn datblygu swyddogaeth cyflogaeth strategol ar gyfer Rhymni, gan ei sefydlu fel porth i'r Cymoedd** | A - 2 Ystâd Ddiwydiannol The Lawns | Datblygu unedau cychwynnol ychwanegol (modern, addas i'r diben) yn The Lawns | • Creu Parth Menter Blaenau'r Cymoedd ar y cyd â Glyn Ebwy;<br>• Datblygu unedau cychwynnol ychwanegol (modern, addas i'r diben) yn The Lawns;<br>• Integreiddio gofod busnes yn well yn y safleoedd, eglurder gwell o ran mynediad;<br>• Gofod ychwanegol ar gyfer darpariaeth cychwyn busnes i gwrdd â'r galw;<br>• Potensial i fanteisio ar welliannau Metro trwy agosrwydd at Orsaf Rhymni;<br>• Lleihau cymudo trwy ddarparu swyddi lleol;<br>• Cynnwys cymalau cymdeithasol mewn contractau sector cyhoeddus perthnasol i annog budd cymunedol lleol | • SP1<br>• SP3-5<br>• SP9-11<br>• SB1-5<br>• CPP2-5 | Cyllid a sicrhawyd: arian cyfatebol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop gydag arian cyfalaf craidd CBSC<br><br>Camau'r dyfodol: Wedi'i ariannu'n breifat neu drwy Gronfa Ffyniant a Rennir y DU |
| | A - 3 Ystâd ddiwydiannol Blaenau'r Cymoedd | Datblygu eiddo dosbarth B modern, addas i'r diben, gan gynnwys o bosibl ailddatblygu'r stoc bresennol a darparu cyfleuster cynadledda busnes i wasanaethu coridor yr A465 | • Creu Parth Menter Blaenau'r Cymoedd ar y cyd â Glyn Ebwy;<br>• DeveDatblygu tir heb ei ddefnyddio/eiddo hŷn ar gyfer defnydd cyflogaeth;<br>• Defnyddio tir gwag ar gyfer cyfleuster cynadledda busnes a/neu ddefnydd B2;<br>• Gofod ychwanegol ar gyfer darpariaeth cychwyn busnes i gwrdd â'r galw;<br>• Manteisio ar gysylltiadau trafnidiaeth da (ger yr A469, ychydig i'r de o'r A465);<br>• Reduction in Lleihau cymudo trwy ddarparu swyddi lleol;<br>• Creu adeiladau ffisegol sydd eu hangen i dyfu sectorau allweddol, gan gynnwys presenoldeb gwyddorau bywyd presennol | • SP1<br>• SP3-5<br>• SP9-11<br>• SB1-6<br>• CPP2-4 | Cyllid a sicrhawyd: yn debygol o gael ei ariannu'n breifat<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu |

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol | Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio | Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial |
|---|---|---|---|---|---|
| **B - Gwella cydnerthedd cymdeithasol ac economaidd trwy addysg, hyfforddiant a chyngor gyrfaoedd, a meithrin datblygiad yr economi sylfaenol o fewn yr ardal hon i sicrhau bod twf economaidd yn cronni'n decach.** | B - 1 Cyngor addysg, hyfforddiant a gyrfaoedd | Mae hwn yn amcan trawsbynciol y dylid mynd i'r afael ag ef fel rhan o gryfhau swyddogaeth gyflogaeth yr ardal | • Ymagwedd gydlynol tuag at addysg a hyfforddiant rhwng sefydliadau perthnasol;<br>• Gwella cysylltiadau rhwng darparwyr addysg a hyfforddiant a busnes;<br>• Rhaglenni addysg/hyfforddi wedi'u teilwra i fodloni gofynion busnes;<br>• Darparu cefnogaeth yrfa briodol trwy'r cwricwlwm ac ar gyfer oedolion;<br>• Mynd i'r afael â'r diffyg cyfatebiaeth rhwng y sgiliau sydd eu hangen i gael mynediad at swyddi a'r hyfforddiant a ddarperir;<br>• Uwchsgilio i sicrhau yr eir i'r afael â 'diffygion sgiliau' mewn perthynas â chyflogaeth gyfredol<br>• Denu cyflogwyr a gwella rhagolygon ar gyfer twf cynhenid | • SP1-3<br>• SP4-9<br>• SP11<br>• SB1-3<br>• SB5-6<br>• CPP5 | Cyllid a sicrhawyd: yn ddibynnol ar ystod o randdeiliaid o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu |
| | B - 2 Yr Economi Sylfaenol | Mae hwn yn amcan trawsbynciol y dylid mynd i'r afael ag ef fel rhan o sicrhau budd economaidd a chymdeithasol eang | • Gweithio gyda busnesau lleol i sefydlu rhwydweithiau cydweithredu<br>• Sicrhau bod prosesau caffael y Cyngor yn buddsoddi mewn cwmnïau a sefydliadau lleol trwy ddefnyddio arbenigedd lleol a rhoi contractau cymdeithasol ar waith sydd o fudd i'r gymuned<br>• Datblygu'r sylfaen sgiliau angenrheidiol i gynnal rhwydweithiau o gydweithredu a chael mynediad at gyfleoedd ariannu (Cronfa Her yr Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru) | • SP1<br>• SP3-6<br>• SP8-11<br>• SB1-3<br>• SB5-6<br>• CPP5 | Cyllid a sicrhawyd: Bydd £1.5m ar gael ar gyfer ardal Tasglu'r Cymoedd trwy Gronfa Her yr Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu |

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol | Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio | Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial |
|---|---|---|---|---|---|
| **C - Ehangu cylch dylanwad yr ardal a gwella cysylltedd** | C - 1 Tir o gwmpas gorsaf Rhymni | Gwelliannau i'r orsaf, mannau parcio ychwanegol a chreu hwb busnes aml-swyddogaeth | • Gwell cyfleusterau stablu, ymestyn ac ailfodelu platfformau, parcio ychwanegol, bloc toiledau, ystafelloedd aros newydd, rheseli beiciau ac uwchraddio tocynnau a wifi;<br>• Creu canolbwynt busnes aml-swyddogaethol, gan gynnig unedau busnes, gofod gwaith-byw ac elfen fasnachol gan gynnwys cyfleusterau cyfarfod;<br>• Gwella ffocws busnes a masnachol Rhymni trwy fanteisio ar gysylltedd gwell;<br>• Gofod ychwanegol ar gyfer darpariaeth cychwyn busnes lleol;<br>• Potensial i fanteisio ar welliannau Metro trwy agosrwydd at Orsaf Rhymni;<br>• Lleihau cymudo trwy ddarparu swyddi lleol;<br>• Ailddefnyddio gofod nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon;<br>• Mwy o ryngweithio a lles cymunedol trwy ddatblygu gofod amlswyddogaethol | • SP3-5<br>• SP9<br>• SP11<br>• SB1-5<br>• SQL3<br>• CPP2-4 | Cyllid a sicrhawyd: yn ddibynnol ar ymrwymiadau Trafnidiaeth i Gymru<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu |
| | C - 2 Gorsafoedd eraill (Pontlotyn, Brithdir, Tirphil) | Gwelliannau Gorsaf yng Ngorsafoedd Pontlotyn, Brithdir a Tirphil | • Cyfleusterau gwell ynghyd â'r potensial ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan;<br>• Manteisio i'r eithaf ar gynnydd mewn amlder teithiau trwy wella cyfleusterau, er mwyn annog defnydd o ddulliau cynaliadwy | • CPP2<br>• CPP4 | Cyllid a sicrhawyd: yn ddibynnol ar ymrwymiadau Trafnidiaeth i Gymru - seilwaith cerbydau trydan yn ddibynnol ar gyllid OLEV<br>Cyfanswm cost: i'w bennu |
| | C - 3 Hwb Trafnidiaeth yr A465/ A469 | Datblygu cyfnewidfa trafnidiaeth yn agos i groestoriad yr A465 a'r A469 | • Darparu parcio a theithio rhwng yr A465 a Gorsaf Rhymni;<br>• Creu cysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy rhwng yr A465 a darpariaeth vcyflogaeth newydd yn Capital Valley et al; | • SP1<br>• SP3<br>• SP6-9<br>• SB1-4<br>• CPP2-4 | Cyllid a sicrhawyd: Fframwaith Gwella Metro i'w lunio<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu |

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol | Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio | Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial |
|---|---|---|---|---|---|
| **C - Ehangu cylch dylanwad yr ardal a gwella cysylltedd** | | | • Datblygu cysylltiadau gyda llwybrau Teithio Llesol presennol ac arfaethedig;<br>• Gwella cysylltedd aml-foddol ar hyd coridor yr A465 rhwng Merthyr a Glyn Ebwy;<br>• Mwy o fynediad at gyflogaeth, hamdden, gwasanaethau hanfodol i breswylwyr<br>• Atyniad cynyddol busnesau i farchnadoedd a buddsoddwyr allanol | | |
| | C - 4 Llwybr Cydnerthedd yr A469 | Parhau gydag ystyriaeth o lwybr cydnerthedd i'r A469 rhwng Tredegar Newydd a Rhymni | • Ychwanegu cydnerthedd gogledd-de i'r rhwydwaith priffyrdd yn ardal y Prif Gynllun;<br>• Cynnydd mewn hyder busnes oherwydd gwell cysylltiadau o fewn ardaloedd, gan alluogi mwy o gwmnïau i gyrraedd marchnadoedd allanol;<br>• Potensial ar gyfer twf busnes lleol oherwydd gwell cysylltedd;<br>• Lleihau cymudo trwy ddarparu swyddi lleol;<br>• Mwy o fynediad at gyflogaeth, hamdden, gwasanaethau hanfodol i breswylwyr | • SP3-4<br>• SP9<br>• SB1-4<br>• CPP1<br>• CPP4 | Cyllid a sicrhawyd: dim hyd yma<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu |
| | C - 5 Hen Safle Skinner, Rhymni | Datblygu cyfleuster masnachol neu gysylltiedig â gwasanaeth, gan gynnwys pwyntiau gwefru cerbydau trydan i wasanaethu'r darn hwn o goridor yr A465 | • Ychwanegu 'atynydd' i annog masnach pasio posibl rhwng Merthyr a Glyn Ebwy, gan fanteisio ar leoliad y safle ychydig oddi ar yr A465;<br>• Llenwi bwlch o ran seilwaith gwefru cerbydau trydan, gan ychwanegu at gymhwysedd cynaladwyedd yr ardal;<br>• Yn agos i Ystâd Ddiwydiannol Blaenau'r Cymoedd – gallai datblygu cyfleuster cynadledda busnes rhanbarthol yn y lleoliad hwn wella atyniad economaidd datblygiad o'r fath | • SP4-5<br>• SP9<br>• SB1-4<br>• CPP1<br>• CPP3<br>• CPP5 | Cyllid a sicrhawyd: seilwaith cerbydau trydan yn ddibynnol ar gyllid OLEV<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu |

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol | Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio | Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial |
|---|---|---|---|---|---|
| **C - Ehangu cylch dylanwad yr ardal a gwella cysylltedd** | C - 6 Dyffryn Terrace, Tredegar Newydd | Datblygu pwyntiau gwefru cerbydau trydan | • Cyflwyno rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus trydan i gyd y Cyngor i ran ogleddol y Fwrdeistref Sirol;<br>• Budd cynaladwyedd daprariaeth gwefru cerbydau trydan;<br>• Bydd defnyddio maes parcio cyhoeddus yn cynyddu hygyrchedd y cynllun | • SP4<br>• SP9 | Cyllid a sicrhawyd: seilwaith cerbydau trydan yn ddibynnol ar gyllid OLEV<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu |
| | C - 7 Llwybrau Teithio Llesol | Datblygu rhwydwaith o deithiau a llwybrau beicio dros y 15 mlynedd nesaf, yn unol a'r Map Llwybrau Integredig | • Cynyddu'r rhwydwaith o gysylltiadau cynaliadwy rhwng, ac o fewn, lleoedd;<br>• Defnydd mwy cynhwysfawr o Deithio Llesol fel ffordd o integreiddio gwahanol foddau;<br>• Mwy o gyfleoedd i ddefnyddio Teithio Llesol fel ffordd o gael mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau hanfodol;<br>• Potensial i gysylltu â llwybrau ychwanegol, fel y rhai sy'n gysylltiedig â chyfleusterau hamdden a thwristiaeth; | • SP6<br>• SP8<br>• SQL3 | Cyllid a sicrhawyd: dyraniad £390k y Gronfa Teithio Llesol ar gyfer 2019/20<br><br>Cyfanswm cost: yn ofynnol i ALlau ymgeisio am gylid yn flynyddol |
| **D - Atgyfnerthu rôl Bargod fel canolfan gwasanaeth ar gyfer gogledd y Fwrdeistref Sirol** | D - 1 Tir yng Ngorsaf Bargod | Ehangu darpariaeth o fannau parcio a gwelliannau cyffredinol i'r orsaf | • Gwneud y defnydd mwyaf posibl trwy wella cyfleusterau gorsaf a mannau parcio ychwanegol;<br>• Gwella ffocws busnes a masnachol Bargod trwy fanteisio ar fwy o gysylltedd;<br>• Cyfleoedd datblygu mwy atyniadol ym mhen gogleddol canol y dref | • SB1-4<br>• SQL3<br>• SQL7<br>• CPP2-4 | Cyllid a sicrhawyd: Fframwaith Gwella Metro i'w lunio<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu |

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol | Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio | Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial |
|---|---|---|---|---|---|
| **D - Atgyfnerthu rôl Bargod fel canolfan gwasanaeth ar gyfer gogledd y Fwrdeistref Sirol** | D - 2 Ardal Busnes a Stryd Fawr Bargod | Ailddatblygu unedau gwag ar gyfer defnydd swyddfa, rhai yn adwerthu a defnydd masnachol cydweddus | • Gwella ffocws busnes a masnachol Bargod trwy fanteisio ar gynnydd mewn cysylltedd;<br>• Gwneud y mwyaf o'r budd sy'n deillio o'i agosrwydd at orsafoedd bysiau a rheilffyrdd - cyfle i farchnata Bargod at ddefnydd swyddfa, gyda gwell mynediad i farchnadoedd allanol;<br>• Lleihau cymudo trwy ddarparu swyddi lleol;<br>• Ailddefnyddio gofod nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon;<br>• Arallgyfeirio rôl canol y dref, cynyddu cydnerthedd economaidd | • SB1-4<br>• SQL3<br>• SQL5<br>• SQL7<br>• CPP2-3<br>• CPP5 | Cyllid a sicrhawyd: Gall cyllid Tasglu'r Cymoedd ddod ar gael. Posibilrwydd ehangu cwmpas Cronfa Gwella Eiddo Canolfan Drefol Llywodraeth Cymru (sy'n targedu ailddatblygu eiddo gwag a thanddefnydd adeiladau)<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu |
| | D - 3 Llwyfandir Adwerthu Bargod | Datblygu'r rhelyw o Lwyfandir Adwerthu Bargod at ddefnydd masnachol | • Datblygu defnydd cyflenwol i adwerthu presennol yn y cyffiniau;<br>• Potensial ar gyfer cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â chanol y dref, a thrwy hynny fod o fudd i ganol y dref gyfan;<br>• Datblygu tir nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon;<br>• Arallgyfeirio rôl canol y dref, cynyddu cydnerthedd economaidd | • SQL3<br>• SQL7<br>• CPP3 | Cyllid a sicrhawyd: yn debygol o fod o fuddsoddiad sector preifat<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu |

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol | Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio | Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial |
|---|---|---|---|---|---|
| **D - Atgyfnerthu rôl Bargod fel canolfan gwasanaeth ar gyfer gogledd y Fwrdeistref Sirol** | D - 4 yr Hen Sinema, Sgwâr Hanbury | Ailddatblygu'r hen sinema ar gyfer defnydd masnachol / swyddfa | • Datblygu defnydd cyflenwol i adwerthu presennol yn y cyffiniau;<br>• Manteisio ar well cysylltedd trwy'r Metro;<br>• Ailddefnyddio adeiladau presennol;<br>• Arallgyfeirio rôl canol y dref, cynyddu cydnerthedd economaidd | • SB1-4<br>• SQL3<br>• SQL7<br>• CPP3 | Cyllid a sicrhawyd: Gall cyllid Tasglu'r Cymoedd ddod ar gael. Posibilrwydd ehangu cwmpas Cronfa Gwella Eiddo Canolfan Drefol Llywodraeth Cymru (sy'n targedu ailddatblygu eiddo gwag a thanddefnydd adeiladau)<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu |
| **E - Gwneud y mwyaf o effaith Parc Rhanbarthol y Cymoedd, amddiffyn a gwella mannau gwyrdd a'r dreftadaeth adeiledig pwysig a hyrwyddo twristiaeth** | E - 1 Parc Cwm Darran | Ehangu rôl y parc fel atyniad ymwelwyr ac adnodd cymunedol | • Gwell cysylltiad rhwng cyfleusterau twristiaeth yn yr ardal;<br>• Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ag atyniadau Rhymni o ganlyniad i nawdd Parc Bryn Bach;<br>• Datblygu rôl fwy i Gronfa Ddŵr y Drenewydd;<br>• Budd canlyniadol i gyfleusterau a gwasanaethau ychwanegol mewn lleoliadau cyfagos e.e. siopau a thafarndai;<br>• Hyrwyddo ffyrdd o fyw mwy egnïol ac iachach trwy ymestyn cysylltiadau cerdded a beicio | • SP5-6<br>• SP8<br>• SB1-2<br>• SB6<br>• SQL1-2<br>• SQL4 | Cyllid a sicrhawyd: dim hyd yma<br><br>Cyfanswm cost: £567k (£55k costau dylunio) yn ôl Astudiaeth Weledigaeth |

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol | Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio | Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial |
|---|---|---|---|---|---|
| **E - Gwneud y mwyaf o effaith Parc Rhanbarthol y Cymoedd, amddiffyn a gwella mannau gwyrdd a'r dreftadaeth adeiledig pwysig a hyrwyddo twristiaeth** | E - 2 Parc Bryn Bach, Y Drenewydd a Chysylltiadau Perthnasol | Gwell cydlynu o gyfleusterau presennol (Parc Bryn Bach, Y Drenewydd) trwy ymestyn llwybrau beicio, gwaith dehongli par. Ffwrnais Uchaf Rhymni | • Gwell cysylltiad rhwng cyfleusterau twristiaeth yn yr ardal;<br>• Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ag atyniadau Rhymni o ganlyniad i nawdd Parc Bryn Bach;<br>• Datblygu rôl fwy i Gronfa Ddŵr y Drenewydd;<br>• Budd canlyniadol i gyfleusterau a gwasanaethau ychwanegol mewn lleoliadau cyfagos e.e. siopau a thafarndai;<br>• Hyrwyddo ffyrdd o fyw mwy egnïol ac iachach trwy ymestyn cysylltiadau cerdded a beicio | • SP8<br>• SB1-2<br>• SQL1-2<br>• SQL4 | Cyllid a sicrhawyd: dim hyd yma<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu |
| | E - 3 Y Ty Weindio | Defnyddio gofod swyddfa ac integreiddio swyddogaethau datblygu addysgol, ymwelwyr ac economaidd yn well | • Cynyddu darpariaeth swyddfa i fusnesau lleol ac eraill , gan gynnwys Dŵr Cymru;<br>• Cymorth i fusnesau lleol sy'n cychwyn;<br>• Cryfhau hwb cymunedol amlbwrpas trwy integreiddio gwahanol wasanaethau a defnydd;<br>• Cadw cyfleuster diwylliannol lleol pwysig | • SP1<br>• SP3-7<br>• SP9<br>• SB1-3<br>• SB5-6<br>• SQL2-4<br>• CPP5 | Cyllid a sicrhawyd: cytundeb dros dro gyda Dwr Cymru am gyfnod gwneud gwaith seilwaith (2 flynedd)<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu – bydd defnydd Dwr Cymru yn cynhyrchu incwm |
| | E - 4 Glofa Markham | Datblygu parc gwledig gan gynnwys ymestyn y llwybrau presennol, ehangu apêl ymwelwyr a chreu defnydd economaidd priodol | • Gwell cyfleuster twristiaeth i drigolion lleol ac ymwelwyr;<br>• Budd economaidd cynyddu amser preswylio a gwariant, ynghyd â chysylltiadau â chyfleusterau eraill fel Pwll Penyfan;<br>• Arallgyfeirio economi leol i gynnwys defnyddiau economaidd gwledig priodol;<br>• Datblygiad cymunedol trwy weithgareddau fel rheoli coetiroedd;<br>• Hyrwyddo ffyrdd o fyw mwy egnïol ac iachach trwy ddarparu mwy o weithgareddau awyr agored | • SP4-5<br>• SP8<br>• SB1-2<br>• SB5-6<br>• SQL1-2<br>• SQL4 | Cyllid a sicrhawyd: dim hyd yma<br><br>Cyfanswm cost: £1 miliwn (£87k costau dylunio) yn ôl Astudiaeth Weledigaeth |

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol | Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio | Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial |
|---|---|---|---|---|---|
| **E - Gwneud y mwyaf o effaith Parc Rhanbarthol y Cymoedd, amddiffyn a gwella mannau gwyrdd a'r dreftadaeth adeiledig pwysig a hyrwyddo twristiaeth** | E - 5 Comin Gelligaer a Merthyr | Gwella gwarcheidiaeth, datblygu cymunedol a mwy o ddefnydd o'r Comin fel atyniad i ymwelwyr | • Lansio Tirwedd y Comin, i warchod a chynnal a chadw'r Comin;<br>• Lansio Tirwedd y Digidol, a fydd yn sefydlu canolfan ddata rhithwir i breswylwyr ac ymwelwyr;<br>• Cysylltu gydag atyniadau eraill e.e. Parc Cwm Darran, Y Drenewydd;<br>• Potensial ar gyfer darpariaeth llety a lletygarwch mewn aneddiadau cyfagos;<br>• Datblygiad cymunedol trwy stiwardiaeth tirwedd a thechnoleg ddigidol | • SP4-6<br>• SP8<br>• SB1-2<br>• SB6<br>• SQL1-2<br>• SQL4<br>• CPP6 | Cyllid a sicrhawyd: Tirwedd y Comin £160k (£128k o ariannu CDRh trwy ddau gr p gweithredu lleol, £32k o Gymdeithas Cominwyr Gelligaer a Merthyr);<br><br>Tirwedd y Digidol £33.5k (£26.8k o ariannu CDRh trwy gr p gweithredu lleol Cwm y Mynydd, £6.7k o CBSC)<br><br>Cyfanswm cost: Tirwedd y Comin £160k, Tirwedd y Digidol £33.5k |
| | E - 6 Parc Coetir Bargod | Cynyddu hygyrchedd y parc mewn perthnas ag aneddiadau lleol trwy lwybrau cerdded a beicio newydd ac estynedig | • Cynyddu hygyrchedd y parc fel cyrchfan i ymwelwyr lleol;<br>• Cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r ffurfiau teithio mwyaf cynaliadwy;<br>• Mwy o gyfle i gysylltu â chyfleusterau ychwanegol cyfagos trwy Barc Rhanbarthol y Cymoedd;<br>• Hyrwyddo ffyrdd o fyw mwy egnïol ac iachach trwy ddefnyddio'r parc | • SP6<br>• SP8<br>• SQL1-2<br>• SQL4<br>• CPP2 | Cyllid a sicrhawyd: dyraniad o £390k o'r Gronfa Teithio Llesol ar gyfer 2019/20<br><br>Cyfanswm cost: yn ofynnol i ALlau ymgeisio am gyllid yn flynyddol |
| | E - 7 Parc Bargod | Manteisio i'r eithaf ar rôl y parc o ran cynaliadwyedd y dref | • Edrych ar gyfleoedd i gael y nifer mwyaf posib o ymwelwyr;<br>• Sicrhau bod cyfleusterau yn addas i'r diben | • SP8<br>• SQL1-3 | Cyllid a sicrhawyd: dim hyd yma<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu |

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol | Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio | Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial |
|---|---|---|---|---|---|
| **F - Cefnogi cynigion ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a budd cymunedol trwy seilwaith cyfleustodau** | F - 1 Gogledd yr A465 | Datblygiad posib cynllun ynni adnewyddadwy fel rhan o 'Llain Ynni' Blaenau'r Cymoedd | • Byddai datblygu cynllun ynni adnewyddadwy yn rhoi pwrpas economaidd i'r ardal, fel rhan o'r 'Llain Ynni' ehangach;<br>• Potensial ar gyfer creu swyddi o fewn y sector ynni;<br>• Budd cynaliadwy ynni adnewyddadwy;<br>• Defnyddio arian er budd cymunedol, a datblygiad cymunedol o ganlyniad i ymgysylltu gan ddatblygwyr | • SP4-5<br>• SB1-2<br>• SQL1 | Buddsoddiad sector preifat yn bennaf mewn ynni gwynt ar y tir, cyfleoedd efallai i CBSC gyd-fuddsoddi<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu |
| | F - 2 Cynllun Ynni Adnewyddadwy Markham | Datblygiad potensial cynllun ynni adnewyddadwy cymunedol | • Cyfrannu at 'Llain Ynni' Blaenau'r Cymoedd;<br>• Budd cynaliadwy ynni adnewyddadwy;<br>• Cydnerthedd cymunedol;<br>• Integreiddio gyda, a chyfrannu at, yr ystod o ddefnydd economaidd gwledig o fewn y parc gwledig | • SP4-5<br>• SP9<br>• SB1-2<br>• SQL1 | Cyllid a sicrhawyd: dim hyd yma<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu |
| | F - 3 Cymunedau Cydnerthedd Dwr Rhymni i Bargod | Cynyddu cydnerthedd dwr trwy welliannau i seilwaith ffisegol ac ymgysylltiad cymunedol | • Ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd yn y gymuned;<br>• Sicrhau ymagwedd gydgysylltiedig rhwng sefydliadau rhanddeiliaid;<br>• Cynyddu datblygiad a hyder cymunedol;<br>• Gwelliannau ffiesgol i'r seilwaith cyfleustodau | • SP4-6<br>• SP8<br>• SP9<br>• SP11<br>• SB6 | Cynllun wedi'i ariannu gan Dwr Cymru |

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol | Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio | Cyllid a Sicrhawyd a'rcostau potensial |
|---|---|---|---|---|---|
| **G - Cefnogi datblygu ac arallgyfeirio tai mewn lleoliadau cynaliadwy** | G - 1 Llwyfandir Aberbargod | Cynllun defnydd cymysg yn cynnwys peth darpariaeth breswyl, AB ac ymestyn y llwybr beicio i Barc Coetir Bargod | • Gwireddu peth datblygiad preswyl yn agos at ddefnydd cyflogaeth presennol (Angel Lane, Ystâd Ddiwydiannol Bowen);<br>• Buddsoddi mewn hyfforddiant ac addysg trwy ddarpariaeth AB;<br>• Sefydlu cysylltiadau pellach gyda Pharc Coetir Bargod, hyrwyddo cerdded a beicio;<br>• Gwella rôl Aberbargod fel anheddiad cynaliadwy | • SP1-6<br>• SP8-9<br>• SB2<br>• SB6<br>• SQL2-3<br>• SQL5-6 | Cyllid a sicrhawyd: dim hyd yma<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu |
| | G - 2 Ysgol Bedwellte | Datblygu safle hen Ysgol Bedwellte ar gyfer preswyl | • Defnyddio tir brown gwag;<br>• Amrywiaeth yn y stoc tai | • SQL5-6 | Cyllid a sicrhawyd: i'w ariannu'n breifat<br><br>Cyfanswm cost: i'w bennu |
| | G - 3 Cynllun Grant Cartrefi Gwag | Arian grant i brynwyr cartrefi gwag i'w hadnewyddu | • Lleihau posibl nifer y cartrefi gwag;<br>• Cynydd yn amrywiaeth y stoc tai;<br>• Datblygu sgiliau;<br>• Cryfhau cadwyni cyflenwi lleol trwy ddefnyddio cwmniau lleol | • SP1<br>• SP3-6<br>• SP10<br>• SB1-3<br>• SB5<br>• SQL5-6 | £10m dros ddwy flynedd wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal Tasglu'r Cymoedd |
| **H - Darparu lefel addas o gyfleusterau cymunedol, hamdden ac addysg, gan alinio â mentrau cenedlaethol a lleol gan gynnwys Ysgolion yr 21ain Ganrif a Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili lle bo hynny'n berthnasol, a sefydlu Rhwydweithiau Lles Integredig er mwyn cysylltu cryfderau ac asedau cymunedau** | H - 1 Ysgolion yr 21ain Ganrif | Ailosod ac ail-leoli adeiladau ysgolion yn Rhymni a Bargod trwy'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif | • DeDatblygu adeiladau ysgol addas i'r diben mewn ardaloedd o amddifadedd uchel;<br>• Ehangu addysg cyfrwng Cymraeg;<br>• Lleihau lleoedd dros ben ac arbedion mewn termau ariannol;<br>• Mwy o gyfleoedd ar gyfer defnydd cymunedol a darpariaeth gofal plant | • SP2<br>• SP6<br>• SP8-9<br>• SB6<br>• SQL2-3 | Amlen ariannu yn amodol ar gymeradwyaeth Achos Busnes: £110 miliwn ar gyfer cynigion Band B ar draws CBSC - £78m ariannu cyfalaf (25/35% wedi'i gwrdd gan CBSC), £32m ariannu refeniw (19% wedi'i gwrdd gan CBSC) |

| Amcan Strategol | Prosiect | Disgrifiad | Allbynnau Disgwyliedig/Mynegol | Bodlonwyd Amcanion y Strategaeth Adfywio | Cyllid a Sicrhawyd a'r costau potensial |
|---|---|---|---|---|---|
| **H - Darparu lefel addas o gyfleusterau cymunedol, hamdden ac addysg, a sefydlu Rhwydweithiau Lles Integredig er mwyn cysylltu cryfderau ac asedau cymunedau.** | H - 2 Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhymni a Chanolfan Adnoddau Hafod Deg | Parhau i integreiddio gwasanaethau wedi'u lleoli yn y gymuned | • Sicrhau argaeledd cyhoeddus ac ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael;<br>• Cydlynu gwasanaethau ar wahân, ond cyflenwol, yn well;<br>• Darparu lle gwaith ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddol | • SP1-9<br>• SB5-6<br>• SQL2-3 | Cyllid a sicrhawyd: yn ddibynnol ar ystod o randdeiliaid o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector<br><br>Cyfanswm cost: i'w adnabod |
| | H - 3 Rhwydweithiau Llesiant Integredig | Sefydlu Rhwydweithiau Llesiant Integredig ar gyfer ardal y Prif Gynllun | • Cynnal ymarfer mapio o gyfleusterau presennol, er mwyn gwneud rhwydweithiau'n haws i'w hadnabod;<br>• Cysylltiad 'hybiau' cymunedol a chyflenwyr gwasanaeth;<br>• Osgoi dyblygu o ran darparu cyngor a chyfeirio;<br>• Mwy o eglurder i ddefnyddwyr gwasanaeth a hygyrchedd gwybodaeth | • SP1-9<br>• SB5-6<br>• SQL2-3 | Cyllid a sicrhawyd: i'w ariannu gan BIAB |
| **I - Sicrhau bod hygyrchedd i bawb wedi'i ymgorffori ym mhob cynllun gwella** | | Mae hwn yn amcan trawsbynciol y dylid ei ystyried fel rhan annatod o bob prosiect | • Hygyrchedd i'r rhai sy'n byw, gweithio neu ymweld ag ardal y Prif Gynllun | • SQL3 | |
| **J - Sicrhau bod pob cymuned ym Mlaenau'r Cymoedd yn gallu ymgysylltu ac elwa o'r Prif Gynllun** | | Mynd i'r afael ag anghenion amlochrog yn y cymunedau mwyaf difreintiedig trwy fabwysiadu ffocws yn seiliedig ar le sy'n ceisio cydlynu gwasanaethau'n well er mwyn cael yr effaith fwyaf | • Allbwn cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer cymunedau difreintiedig | • SP1-11<br>• SB1<br>• SB6<br>• SQL3<br>• SQL6 | |

# Atodiad 1: Amcanion Sylfaen ar Gyfer Llwyddiant

| Cefnogi Pobl | Cefnogi Busnes | Cefnogi Ansawdd Bywyd | Cysylltu Pobl a Lleoedd |
|---|---|---|---|
| SP1: Cynyddu cyflogadwyedd | SB1: Adeiladu economi gadarnach a mwy amrywiol | SQL1: Rheoli'r dreftadaeth naturiol a'i hadnoddau yn addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, tra'n rhoi sylw i ddatblygiadau cynaladwy hanfodol, diogelu bywyd gwyllt ac annog y defnydd o fannau gwyrdd i hyrwyddo lles. | CPP1: Hyrwyddo ac adnabod prosiectau priffyrdd mawr a fyddai'n gwella cysylltedd yn sylweddol. |
| SP2: Codi cyrhaeddiad addysgol | SB2: Cefnogi twf economaidd ac arloesedd | SQL2: Gwella mynediad i ddiwylliant, hamdden a'r celfyddydau | CPP2: Promote public transport integration and connectivity |
| SP3: Lleihau cyfraddau diweithdra | CPP2: Hyrwyddo integreiddio a chysylltedd cludiant cyhoeddus. | SQL3: Active place marking | CPP3: Promote place-making development around key transport hubs and nodes |
| SP4: Gwella cydnerthedd yr economi trwy gefnogi a datblygu'r economi sylfaenol | SB4: Safleoedd Allweddol a Seilwaith ar gyfer Cyfleoedd Gwaith | SQL4: Mae angen cynyddu twristiaeth yng Nghaerffili, gan ganolbwyntio ar dreftadaeth hanesyddol a naturiol yr ardal a'r cyfleoedd y mae hyn yn eu cyflwyno. | CPP4: Hyrwyddo gwelliannau i reilffyrdd yn weithredol a sefydlu cysylltiadau newydd. |
| SP5: Datblygu sgiliau mewn ardaloedd twf allweddol. | SB5: Hybu Cefnogaeth i Fusnesau a Mentergarwch | SQL 5: Gwella'r ddarpariaeth o dai newydd ac ehangu'r stoc dai ar draws pob daliadaeth. | CPP5: Ceisio lleihau pellter teithio ac allgymudo |
| SP6: Targedu ymyrraeth gyda grwpiau allweddol | SB6: Gwella'r cyswllt rhwng busnesau, ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant | SQL6: Gwella ansawdd y stoc dai presennol drwy ymyrraeth wedi ei dargedu; yn enwedig o safbwynt stoc dai'r Cyngor | CPP6: Promote digital connectivity |

| Cefnogi Pobl | Cefnogi Busnes | Cefnogi Ansawdd Bywyd | Cysylltu Pobl a Lleoedd |
|---|---|---|---|
| SP7: Sicrhau bod 'pecyn gwasanaethau' clir a chydlynol ar gael er mwyn ailgysylltu pobl gyda gwaith. | | SQL 7: Ailffocysu canol y trefi i gwrdd ag anghenion preswylwyr a busnesau. | |
| SP8: Cefnogi ymyraethau i wella iechyd | | | |
| SP9: Lleihau anghyfartaledd trwy leihau nifer yr ardaloedd cynnyrch ehangach sydd o fewn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. | | | |
| SP10: Sicrhau bod caffael diwylliannol yn ystyriaeth allweddol wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau | | | |
| SP11: Mynd i'r afael â thlodi mewn gwaith | | | |

# Atodiad 2: Nodau Llesiant

Mae'r Prif Gynllun wedi ystyried y saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er mwyn dangos hyn, gwnaed asesiad o ba nodau llesiant y byddai pob amcan strategol yn eu cefnogi. Amcanion Strategol y Prif Gynllun yw:

**A.** Ategu, ac integreiddio â mentrau cyfagos fel Parth Menter Glyn Ebwy (PM) er mwyn datblygu swyddogaeth cyflogaeth strategol ar gyfer Rhymni, gan ei sefydlu fel porth i'r Cymoedd;

**B.** Gwella cydnerthedd cymdeithasol ac economaidd trwy addysg, hyfforddiant a chyngor gyrfaoedd, a meithrin datblygiad yr economi sylfaenol o fewn yr ardal hon i sicrhau bod twf economaidd yn cronni'n decach.;

**C.** Ehangu cylch dylanwad yr ardal a gwella cysylltedd;

**D.** Atgyfnerthu rôl Bargod fel canolfan gwasanaeth ar gyfer gogledd y Fwrdeistref Sirol;

**E.** Gwneud y mwyaf o effaith Parc Rhanbarthol y Cymoedd, amddiffyn a gwella mannau gwyrdd a'r dreftadaeth adeiledig pwysig a hyrwyddo twristiaeth

**F.** Cefnogi cynigion ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a budd cymunedol trwy seilwaith cyfleustodau;

**G.** Cefnogi datblygu ac arallgyfeirio tai mewn lleoliadau cynaliadwy;

**H.** Darparu lefel addas o gyfleusterau cymunedol, hamdden ac addysg, gan alinio â mentrau cenedlaethol a lleol gan gynnwys Ysgolion yr 21ain Ganrif a Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili lle bo hynny'n berthnasol, a sefydlu Rhwydweithiau Lles Integredig er mwyn cysylltu cryfderau ac asedau cymunedau;

**I.** Sicrhau bod hygyrchedd i bawb wedi'i ymgorffori ym mhob cynllun gwella;

**J.** Sicrhau bod pob cymuned ym Mlaenau'r Cymoedd yn gallu ymgysylltu ac elwa o'r Prif Gynllun

| Nod | Disgrifiad o'r Nod | Sut bwriedir ei gyflawni trwy'r Prif Gynllun |
|---|---|---|
